



Ystadau, Cyfleusterau
& Preswylfeydd

Y Lawlyfr Llety 2021-22

Rhan o'r Cytundeb Trwydded Llety

Y Print Mân

Nodir Telerau ac Amodau eich Cytundeb Trwydded Llety yng nghefn y llawlyfr hwn. Mae'r Cytundeb Trwydded Llety yn gontract cyfreithiol rhyngoch chi a'r Brifysgol ac mae'n amlinellu eich rhwymedigaethau chi a rhwymedigaethau'r Brifysgol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall eich rhwymedigaethau'n llwyr cyn derbyn. Os nad ydych yn deall cynnwys y llawlyfr hwn, gan gynnwys y Cytundeb Trwydded Llety (sydd yng nghefn y llawlyfr hwn) a Manylion y Drwydded (sydd yn eich Pecyn Trwydded Llety), fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor cyfreithiol.

Datganiad Preifatrwydd Data

Mae Ystadau, Cyfleusterau & Preswylfeydd yn casglu, cofnodi, defnyddio ac mewn ambell achos yn rhannu gwybodaeth bersonol sydd gennym am ddefnyddwyr ein gwahanol wasanaethau ar gyfer y dibenion y'u bwriadwyd adeg casglu'r wybodaeth. Mae Ystadau, Cyfleusterau & Preswylfeydd' yn ymrwymedig i ddiogelu preifatrwydd ein defnyddwyr drwy gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y defnydd o'ch data a'ch hawliau i'w gweld ar [wefan gyffredinol Gwarchod Data'r Brifysgol](#) a [thudalen we Gwybodaeth Diogelu Data'r Swyddfa Llety](#).

Croeso i Aberystwyth!

Hyderwn y bydd y llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ynghylch byw yn llety'r Brifysgol er mwyn i chi gael gwneud yn fawr o'ch amser gyda ni. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.aber.ac.uk/cy/accommodation

RHIFAU DEFNYDDIOL

Llinell Gymorth 24/7 Y Brifysgol

+44 (0)1970 622900 - mae ffôn ym mynedfa pob adeilad (neu yn y bloc cymunedol yn PJM) a fydd yn eich cysylltu â'r rhif hwn.

Swyddfa Llety

(dydd Llun - dydd Iau 08:30 - 17:00, dydd Gwener 08:30 - 16:30)

+44 (0)1970 622900 llety@aber.ac.uk

Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr

+44 (0)1970 621761 student-support@aber.ac.uk

Swyddfa Ryngwladol

+44 (0)1970 622367 international@aber.ac.uk

Swyddfa Ffioedd

+44 (0)1970 622043 / 628434 fees@aber.ac.uk

Gwasanaethau Gwybodaeth - Cymorth gydag unrhyw gysylltiad gwifredig neu ddi-wifr â'r rhyngwyd.

+44 (0)1970 622400 gg@aber.ac.uk

Gwasanaethau Brys - 999

Gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys - 101 (heddlu) neu 111 (GIG)



Cynnwys

Cwrdd â'r Tîm	5	Glanhau ac Archwiliadau	12	Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian	17
Cyrraedd eich Cartref Newydd	7	Eich Ystafell	12	Cyngor Ynghylch Fisâu	17
Cyn Cyrraedd	7	Ardaloedd Cymunedol	12	Y Gwasanaeth Gyrfaedd	17
Cyrraedd	7	Ardaloedd Allanol	12	UMAber	17
Mynediad i'ch Llety	7	Ein Cyfrifoldeb Ni	12	Chwaraeon, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles	18
Cerdyn Aber ac Allweddi	7	Archwiliadau Cymunedol	12	Y Ganolfan Chwaraeon	18
Mynediad i'r Staff	8	Archwilio Ystafelloedd Gwely	12	Gwasanaethau Croeso	19
Gwneud Gwaith Atgyweirio	8	Canlyniadau Archwiliadau	12	Teithio a Pharcio	20
Rhestr Gynnwys a Chynnal a Chadw	8	Methu Archwiliad	12	Bysiaua	20
Rhestr Gynnwys ar-lein	8	Diogelwch Personol	13	Ceir a Pharcio	20
Eitemau Ychwanegol	8	Diogelwch Cyffredinol	13	Symud Allan	21
Gwaith Cynnal a Chadw	8	Diogelwch Trydanol	13	Gadael yn Ystod Cyfnod y Drwydded	21
Cyfleusterau	9	Profi Dyfeisiau Cluddawy	13	Symud i Lety Arall	21
Trwydded Deledu	9	Diogelwch Tân	14	Eiddo nad oes ar neb ei eisiau	21
Post	9	Archwiliadau Diogelwch Tân	14	Modiwl Symud Allan	21
Gwres, Dŵr Poeth a Goleuadau	9	Camau Diogelwch Tân	14	Arhoswch Gyda Ni	22
Rhyngrwyd	9	Larymau/Ymarferion Tân	14	Pam Aros Gyda Ni?	22
Yswiriant	9	Gadael yr Adeiladau	15	Torri Amodau'r Drwydded	23
Canolfannau dysgu ac ystafelloedd sydd ar gael i'w harcheb	9	Gadael yr Adeiladau	15	Mewn Modd Difrifol neu	23
Golchi Dillad	10	Storio	15	Dro ar ôl Dro	23
Gwastraff ac Ailgylchu	10	Awgrymiadau Defnyddiol	15	Hawl i Apelio	23
Disgwyliadau	11	Iechyd a Chymorth	16	Atodiadau 1-5	24
Sŵn	11	Cofrestru â Meddyg Teulu	16	Cytundeb Trwydded Llety	33
Ysmygu	11	Brechiadau	16	Cod Ymarfer UUK	47
Alcohol	11	Myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd parhaus	16		
Cyd-fyw	11	Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr	17		
Ymwelwyr	11	Gwasanaeth Hygyrchedd i Fyfyrwyr	17		

Cwrdd â'r Tîm

Mae ein Timau Rheoli Preswylfeydd a Swyddfa Llety'n ffurfio rhan o'r adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd.

Ein nod yw darparu cymorth a gofal o'r safon uchaf i chi ac mae gennym dîm o staff i'ch helpu ag unrhyw ymholiadau. Rydym bob amser yn barod i helpu ag unrhyw fater, boed fach neu fawr, er mwyn sicrhau na chewch drafferth tra byddwch yn byw gyda ni.

Tîm y Swyddfa Llety a'r Tîm Rheoli Preswylfeydd

Gall ein timau ateb unrhyw gwestiynau cyffredinol a allai fod gennych ynglŷn â'ch llety. Ewch i'r adran **Amdanom Ni** ar y dudalen we i wybod lle i ddod o hyd i'r timau hyn a beth yw eu horiau agor.

Cynorthwydd Preswyl

I wybod pwy yw eich Cynorthwywyr Preswyl, ac i gael gwybod rhagor am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, ewch i'r dudalen **Byw yn un o'r Neuaddau ar y we**. I wybod pwy yw eich Cynorthwywyr Preswyl, ac i gael gwybod rhagor am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, ewch i'r **dudalen Byw yn un o'r Neuaddau ar y we**.

Y Tîm Glanhau

Fe welwch ein Tîm Glanhau'n rheolaidd yn eich bloc, eich neuadd a'ch manau dysgu cymunedol. Mae croeso i chi aros i gael sgwrs â nhw.

Y Porthorion

Fe welwch ein Porthorion wrth eu dyletswyddau bob dydd ym mhob rhan o'r Brifysgol. Efallai y gwelwch nhw yn eich llety hefyd yn dod i weld rhyw waith cynnal a chadw rydych wedi rhoi gwybod amdano - os ydych yn dweud wrthym am broblem na all ein Porthorion ei datrys, byddant yn rhoi gwybod i'r tîm cynnal a chadw priodol.

Y Tîm Diogelwch

Mae ein Tîm Diogelwch ar gael 24/7 ac yn staffio'r ddesg yn Nerbynfa'r Campws. Efallai y gwelwch aelodau o'r tîm ar batrôl mewn cerbydau ac ar droed o gwmpas ein neuaddau preswyl. Os byddwch yn poeni am rywbeth tra byddwch yn byw yma, mae croeso mawr ichi gysylltu â'r Tîm Diogelwch drwy ffonio Llinell Gymorth y Brifysgol ar 01970 622900. Mae'r llinell ar agor bedair awr ar hugain y dydd.



Cyrraedd eich cartref newydd



Cyn cyrraedd

Cyn i chi gyrraedd bydd angen i chi wybod beth i ddod gyda chi, beth i'w adael gartref a beth sy'n cael ei ddarparu eisoes yn y llety. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein **gwefan Symud i Mewn**, sydd hefyd yn cynnwys rhestr ddefnyddiol y gallwch ei hargraffu.

Os nad ydych am drafferthu dod ag eitemau hanfodol, megis dillad gwely ac offer i'r gegin, gallwch eu harchebu drwy **UniKitOut** lle y cewch brynu'r pethau angenrheidiol a sicrhau eu bod yn cael eu hanfon i'ch llety cyn i chi

gyrraedd!

Mae holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn cael Cerdyn Aber. Mae'n hynod o bwysig bod eich Cerdyn Aber yn barod ar eich cyfer pan fyddwch yn cyrraedd, er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn cael mynd i'ch llety. Er mwyn sicrhau bod eich cerdyn yn barod ar eich cyfer, gwnewch gais amdano cyn gynted â phosibl trwy uwchlwytho llun i'ch Cofnod Myfyriwr.



Cyrraedd

Cewch ddod i nôl allwedd eich ystafell ar y dyddiad a'r amser cyrraedd sydd wedi'u hargraffu yn eich Manylion Trwydded.

Gallwch drefnu eich amser cyrraedd pan fyddwch yn cwblhau ein Rhaglen Gynefino, sy'n rhan o'ch Pecyn Trwydded Llety. I gael gwybod mwy am gyrraedd eich llety, gan gynnwys ble i ddod i nôl eich allwedd, ewch i'n **gwefan Symud i Mewn**.

Mynediad i'ch Llety


Byddwch yn gallu mynd i mewn i'ch llety naill ai ag allwedd, ffob neu Cerdyn Aber (mae pob llety'n wahanol). Dim ond mynediad i'ch bloc, tŷ / fflat, ystafell chi y nydd y cerdyn yn ei ddarparu - yn ogystal ag i unrhyw fannau cymunedol megis canolfannau Dysgu a golchfeydd.

Cerdyn Aber ac Allwedd

Mae clo ar ddrws pob ystafell wely a phob fflat/tŷ. Mae system gloi hefyd ar rai ardaloedd cymunedol mwy. Cofiwch sicrhau bod eich allwedd, eich ffob a/neu'ch Cerdyn Aber yn ddiogel bob amser; peidiwch â'u benthg i neb arall, gan gynnwys eich ffrindiau, eich teulu a'ch cydletywyr. Mae'r Brifysgol yn eich cynghori i gadw eich **Cerdyn Aber** gyda chi bob amser.

Os yw eich Cerdyn Aber, eich allwedd neu'ch ffob yn mynd ar goll neu'n cael eu dwyn, rhaid i chi roi gwybod i ni'n syth. Os bydd angen rhoi allwedd neu gerdyn newydd i chi, mae'n bosib y bydd cost ynghlwm wrth hynny.

Os cewch eich cloi allan, peidiwch â phoeni, cysylltwch â'r Llinell Gymorth 24/7 Y Brifysgol (01970 622900).



Mynediad i'ch Llety

O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen i bobl eraill gael mynd i mewn i'ch llety. **Cofiwch: mae'n rhaid i bob aelod o staff fod â cherdyn adnabod. Mae gennych hawl i ofyn am gael gweld y cerdyn adnabod ac i wrthod gadael i'r staff ddod i mewn os nad ydynt yn dangos cerdyn adnabod – os bydd hyn yn digwydd cysylltwch â'r Swyddfa Llety.**

Mynediad i'r staff i'ch llety

Bydd angen i staff fynd i mewn i'ch llety i wneud archwiliadau, gwirio materion diogelwch ac arolygu materion cynnal a chadw; cewch tua 7 diwrnod o rybudd. Mae nifer fach o resymau a fydd yn golygu na ellir rhoi rhybudd o'r fath, e.e. ymweliadau lles, i ymhwilio digwyddiad, adroddwyd a hysbysu digwyddiadau, mewn argyfwng, os bydd rhywun yn cwyno am sŵn, os bydd Cynorthwydd Preswyl danfon rhywbeth neu'n ymweld, yn ystod ymarferion tân, neu am resymau ieched a diogelwch.

I gael gwybod mwy am Fynediad, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety**.

Mynediad i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

Os rhowch wybod i ni fod nam yn eich llety (boed hynny ar y ffôn, trwy e-bost, yr adroddiad cofnodi nam neu eich rhestr eiddo), rydych yn rhoi awdurdod i gontractwyr gael mynd i mewn i'r ardal dan sylw er mwyn ei drwsio. Nodwch: os bydd unrhyw faterion cynnal a chadw yn cael ei nodi gan staff sy'n gwneud y arolygiadau, byddant yn cael eu rhoi i'r tîm cynnal a chadw perthnasol. Os nad ydych gartref pan gyrhaeddant, byddant yn gadael cerdyn galw i roi gwybod i chi a ydynt wedi datrys y mater neu a fydd angen iddynt ddychwelyd.

Pan rowch wybod bod angen gwaith atgyweirio, rydych hefyd yn rhoi caniatâd i bersonél ddod i mewn i'ch ystafell neu'ch fflat i asesu neu i wneud y gwaith.

Rhestr Gynnwys a Chynnal a Chadw

Dylai eich llety fod yn y cyflwr gorau posibl pan gyrhaeddwch ac fe ddylai hynny bara drwy gydol yr amser rydych yn byw yn y llety. Serch hynny, ni fydd hynny'n bosib weithiau oherwydd defnydd a thraul arferol.

Rhestr gynnwys ar-lein

Yn fuan ar ôl i chi gyrraedd, cewch ebost yn gofyn i chi gwblhau rhestr ar-lein o gynnwys eich ystafell wely a'r ardaloedd cymunedol, a hynny er mwyn i chi allu dweud wrthym am gyflwr eich llety. Drwy hyn fe gawn wybod a oes angen i ni drwsio rhywbeth neu am unrhyw ddifrod. Bydd rhoi gwybod am broblemau ar y rhestr eiddo'n golygu na fyddwch yn gorfod talu am hynny ar ddiwedd eich Cyfnod Trwydded. Rhaid i chi gwblhau'r rhestr eiddo ymhen 7 diwrnod neu fe gofnodir yn awtomatig nad oes dim problemau â'ch llety. Bydd unrhyw faterion cynnal a chadw y rhoddwch wybod amdanynt ar eich rhestr eiddo yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r Tîm Cynnal a Chadw / Tîm Rheoli Preswylfeydd ac, o ganlyniad, rydych yn caniatáu i staff fynd i mewn i'ch ystafell neu eich fflat er mwyn gweld neu drwsio'r broblem.

Eitemau Ychwanegol

Efallai y byddwch yn penderfynu y hoffech ddod â chelfi / offer ychwanegol i'ch llety. Gweler ein **tudalen ar y we am Eitemau Ychwanegol** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwaith cynnal a chadw

Dylech roi gwybod am unrhyw broblemau megis cynnal a chadw / atgyweirio, difrod, peryglon a materion rheoli plâu, cyn gynted ag y sylwch arnynt drwy gyfrwng ein ffurflen cofnodi problemau ar-lein sydd ar gael ar y **wefan Byw yn ein Llety**. Rydym yn ymdrin â'r holl faterion cynnal a chadw yn nhrefn eu blaenoriaeth (cyfeiriwch at Atodiad 3).

Dim ond yn ystod oriau swyddfa arferol (o ddydd Llun i ddydd Gwener) y bydd namau sydd wedi'u cofnodi ar-lein yn cael eu derbyn a'u prosesu, ac eithrio ar **Ŵyl y Banc ac ar Ddiwrnodau Cau'r Brifysgol**. I wybod beth yw'r oriau swyddfa arferol, ewch i'r **dudalen Cofnodi Nam**. Os oes angen atgyweirio rhywbeth ar frys, ffoniwch Linell Gymorth y Brifysgol ar 01970 622900 sydd ar agor bedair awr ar hugain y dydd.

Cyfleusterau



Trwydded Deledu

Mae arnoch angen trwydded deledu er mwyn gwyllo neu recordio rhaglenni teledu by war unrhyw sianel, neu lawrlwytho neu wyllo rhaglenni'r BBC ar iPlayer. Os yw eich llety yn cynnwys teledu sydd wedi'i ddarparu gennym ni, byddwn ni'n darparu'r

drwydded deledu felly nid oes angen ichi bryderu. Fodd bynnag, os ydych chi'n dod â theledu/dyfais ychwanegol gyda chi i'w defnyddio yn eich ystafell, byddwch angen eich Trwydded eich hun. Os teimlwch nad oes angen trwydded deledu arnoch, rhaid ichi ddatgan y wybodaeth hon ar wefan TV Licensing. I gael gwybod mwy, ewch i www.tvlicensing.co.uk.

Post

Bydd eich post yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'ch bloc, eich fflat neu'ch tŷ. Mae'n hollbwysig bod yr anfonwr yn cynnwys eich cyfeiriad post llawn - mae'r manylion ar gael ar y **wefan Byw yn ein Llety**. Os na ddefnyddir y cyfeiriad cywir, ni fydd y post yn cael ei ddosbarthu ac fe'i hanfonir yn ôl at yr anfonwr.



Bydd parseli'n cael eu dosbarthu gan y Post Brenhinol neu'r cwmni cludo yn uniongyrchol i'ch bloc, eich fflat neu'ch tŷ. Os nad ydych gartref pan fyddant yn galw, fe gewch gerdyn galw yn rhoi manylion ynghylch ble i fynd i gasglu eich parcel. Yn anffodus, ni allwn dderbyn parseli ar eich rhan. Gwneir unrhyw drefniadau danfon parseli rhyngoch chi a'r cwmni danfon. Nid ydym yn gyfrifol am unrhyw barseli sy'n cael eu danfon i'r man anghywir neu'n mynd ar goll; felly, os cewch unrhyw broblemau o ran derbyn post, bydd angen ichi gysylltu â'r Royal Mail neu cwmni / y cludwr yn uniongyrchol. Rydym yn caniatáu mynediad i gwmnïau danfon i ddrysau'r blociau perthnasol i gael defnyddio'r blwch llythyrau.

Bydd unrhyw bost sy'n cyrraedd ar ôl i chi symud allan yn cael ei anfon yn ôl at yr anfonwr.

Gwres, Dŵr Poeth a Goleuadau

Mae eich Ffioedd Llety yn cynnwys trydan, dŵr, carthffosiaeth, gwres, goleuadau, gwresogi'r dŵr a nwy, (os yw'r neuadd wedi'i chysylltu â'r bibell nwy). I weld yr amserau gwresogi a dŵr poeth yn eich neuadd, ewch i'r **dudalen Byw yn un o'r Neuaddau ar y we**.

Rhyngrwyd

Mae eich Ffioedd Llety yn cynnwys mynediad i'r rhyngrwyd drwy soced gwifrog Ethernet ymhob ystafell wely. Hwn yw'r prif gyswllt â'r rhyngrwyd. Mae ein rhwydwaith diwifr (eurodram) hefyd ar gael. Mae hwn yn gyswllt eilaidd. Cewch wybodaeth am y gwasanaeth hwn, a sut i gysylltu'ch dyfeisiau â'r rhwydwaith, ar **dudalen y Gwasanaethau Gwybodaeth**.

Yswiriant

Mae eich Ffioedd Llety hefyd yn cynnwys Yswiriant Eiddo Personol. Mae'r eitemau yn eich ystafell wedi'u hyswirio rhag tân, lladradau a llyfoggydd. I gael rhagor o wybodaeth am yswiriant, gan gynnwys yr hyn sydd wedi'i ddiogelu, gwerth yswiriedig yr eitemau a sut i ymestyn y polisi a'i deilwra i fodloni'ch anghenion chi, ewch i'n **wefan Byw yn ein Llety**.

Canolfannau dysgu ac ystafelloedd sydd ar gael i'w harcheb

Mae gennym amrywiaeth o Ganolfannau Dysgu (ar agor 24/7) ac ystafelloedd y gallwch eu harchebu i'w defnyddio am ddim. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety**.

Cyfleusterau

Golchi Dillad

Caiff cyfleusterau golchi dillad eu darparu gan Circuit Laundry. Mae golchfeydd ar gael yn: Cwrt Mawr, Rosser C, Rosser G (i breswylwyr Rosser G yn unig), Bloc Cyfleusterau Pentre Jane Morgan, Pantycelyn (i breswylwyr Pantycelyn yn unig), a Fferm Penglais (x3).

Cewch ddefnyddio'r peiriannau drwy ap ar eich ffôn neu â cherdyn.

Mae rhaglen **CircuitView** yn golygu y gallwch fynd ar y we i weld pa beiriannau golchi a sychu sydd ar gael i'w defnyddio ac mae hefyd yn rhoi gwybod i chi pan fydd eich cylch golch wedi gorffen.

I gael gwybod mwy am y golchfeydd a prif gyngor, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety**.

Gwastraff ac Ailgylchu



Mae biniau yn y ceginau gyfer bwyd, gwydr, ailgylchu a gwastraff cyffredinol. Yna bydd angen i chi fynd â'r gwastraff i'r biniau cywir yn y mannau gwastraff allanol. Dylech roi unrhyw sbwriel o'ch ystafell wely a'ch ystafell ymolchi en-suite (os yw'n berthnasol) yn syth yn y mannau gwastraff allanol ac **NID** ym miniau cymunedol eich fflat/tŷ.

Gweler y siart ar y dudalen nesaf sy'n dangos yr hyn y cewch ei ailgylchu - dylech roi popeth nad yw ar y siart neu nad oes modd ei ailgylchu gyda'r gwastraff cyffredinol.

Deunydd	Pa fin?	Os gwelwch yn dda ✓	Na, dim diolch X
Jariau a photeli gwydr	Y bin gwydr	Gwydr o bob lliw	Serameg, Pyrex, gwydrau yfed, eitemau nad ydynt yn wydr
Cardfwrdd	Ailgylchu	Bocsys cardfwrdd o bob math	Unrhyw gardfwrdd sy'n cynnwys cynnyrch na ellir ei ailgylchu, e.e. bwyd
Papur	Ailgylchu	Papurau newydd, cylchgronau, llyfrau nodiadau, amlenni, llythyrau neu unrhyw nwyddau papur eraill	Cartonau diod, e.e. sudd, eitemau nad ydynt yn bapur
Bwyd	Y bin bwyd gwyrdd	Cynnyrch bwyd o bob math	Deunydd pecynnu, bagiau plastig, hylifau, olew
Plastigau	Ailgylchu	Poteli gwag, caeadau, gwellt yfed, potiau, tybiau, cwpanau	Clingfilm, bagiau plastig, polysytren, eitemau nad ydynt yn blastig
Caniau	Ailgylchu	Caniau alwminiwm a dur e.e. caniau cwrw, papur arian	Eitemau metel caled, e.e. cyllyll a ffyrc ac ati, eitemau nad ydynt yn fetel

Disgwyliadau

A chithau'n aelod o'r Brifysgol, ac yn byw yn llety'r Brifysgol, disgwylir i chi weithio ac ymddwyn, yn y sefydliad a thu hwnt, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gwerthoedd y Brifysgol, a bod yn ystyriol o eraill a dangos parch tuag atynt bob amser.

Sŵn

Gall gormod o sŵn fod yn un o brif achosion gwrthdaro rhwng preswylwyr yn eu llety. Gofynnwn i chi wneud cyn lleied o sŵn â phosib rhwng 23:00-08:30 a bod yn arbennig o ystyriol yn ystod cyfnodau arholiadau.

Ysmygu

Mae holl adeiladau'r Brifysgol yn ardaloedd dim ysmygu, ac mae hynny'n cynnwys e-sigarennau. Os ydych yn ysmygu y tu allan, rhaid i chi sefyll oddi wrth yr adeilad ac unrhyw ffenestri er mwyn sicrhau na fydd arogl y mwg yn mynd i mewn i'r adeilad, a gofynnir i chi ddefnyddio'r biniau sigarêts a ddarperir, yn unol â pholisi ysmygu PA; gweler y [dudalen ar y we am y Polisi Ysmygu](#) ragor o wybodaeth.



Alcohol

Wrth yfed alcohol yn eich llety, cofiwch barchu eich cydletywyr. Gall sŵn fod yn broblem fawr pan fydd pobl yn yfed. Cofiwch hefyd nid pawb sy'n yfed alcohol ac na ddylid rhoi pwysau arnynt i wneud hynny.

Cyd-fyw

Dylai byw gyda phobl eraill yn y brifysgol fod yn brofiad gwych ac yn rhan bwysig o fywyd myfyriwr. Yma yn Aberystwyth, mae cymuned fawr ac amrywiol o bobl o bob cefndir. Gall eich ymddygiad effeithio'n fawr ar bobl eraill felly meddyliwch am y ffordd rydych yn ymddwyn. Gall tensiynau bach ddod i'r wyneb yn sydyn a thyfu'n broblemau mawr ymhen dim. Os cewch unrhyw drafferth gyda phreswylwyr eraill fe'ch cynghorir i siarad â nhw'n gyntaf, ond os nad yw hynny'n bosib neu os nad yw'r sefyllfa'n gwella, gofynnwch i aelod o'r staff am gyngor.



Ymwelwyr

Mae croeso i ymwelwyr aros yn eich llety os cedwir at yr amodau canlynol:

- Rhaid i ymwelydd dros nos fod yn hŷn na 18 oed.
- Ni chaniateir i fwy nag 1 ymwelydd aros ar yr un pryd.
- Dim ond am gyfnod o hyd at dair noson yn olynol y caniateir i ymwelydd aros, ac ni chaniateir iddo ddychwelyd o fewn cyfnod o saith niwrnod.
- Rhaid i ymwelwyr aros yn eich ystafell, nid mewn unrhyw ardaloedd cymunedol.
- Rhaid i'r holl ymwelwyr gael eu cofrestru a'u llofnodi i mewn er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Thân. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r [dudalen Byw yn un o'r Neuaddau ar y we](#).
- Chi sy'n gyfrifol am eich gwestai a rhaid ichi beidio â'i adael heb arolygaeth. Os bydd yn torri'r Cytundeb Trwydded Llety mewn unrhyw fodd, chi fydd yn gyfrifol am ei weithredoedd.
- Rhaid i'ch gwestai fod yn barchus ac ymddwyn yn gyfrifol - os na fydd yn gwneud hynny, mae'n bosibl y gofynnir iddo adael.
- Dylech drafod y ffaith fod arnoch eisiau i ymwelydd ddod i aros gyda'ch cyd-letywyr yn eich fflat / tŷ, a hynny cyn i'r ymwelydd gyrraedd.

Os methwch gydymffurfio â'r uchod, gallem wrthod eich cais i gael ymwelydd i aros. Os bydd materion yn codi dro ar ôl tro, megis gwrthod ymwelwyr, ymwelwyr yn aros heb gael eu cofrestru, ac ymwelwyr yn bod yn swnllyd ac yn creu trafferth, mae'n bosibl y gwaherddir chi rhag cael ymwelwyr yn aros gyda chi.'

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid, diwygio ac addasu'r gofynion hyn ar unrhyw adeg ac ni roddir unrhyw rybudd am hyn.

Glanhau ac Archwiliadau

Rhaid i chi, eich cydletywyr a ninnau gadw'r holl ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'ch llety'n arbennig o lân. Bydd offer sylfaenol fel hwfer a mop ar gael i chi. Eich cyfrifoldeb chi yw prynu eich nwyddau glanhau eich hun.

Eich ystafell

Chi sy'n llwyr gyfrifol am gadw eich ystafell yn lân ac yn daclus bob amser. Os oes gennych ystafell en-suite bydd yn rhaid i chi gadw'r ystafell ymolchi'n lân hefyd.



Ardaloedd cymunedol

Mewn neuaddau hunanarlwyo, rhaid i bawb yn y tŷ neu'r fflat lanhau'r ardaloedd cymunedol megis y ceginau, y coridorau a'r ystafelloedd ymolchi. Yn y neuaddau arlwyo, byddwch yn rhannu cegin â chriw o fyfyrwyr eraill. Gyda'ch gilydd, chi fydd yn gyfrifol am lanhau'r cegin. Mae hynny'n cynnwys arwynebau gweithio, yr oergell, y ffwrn a'r biniau (lle bônt yn berthnasol). Mae llunio rota lanhau, a glynu ati, yn ffordd dda o gadw eich ardaloedd cymunedol yn lân. Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i wneud hyn, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Preswylfeydd.

Ardaloedd allanol

Rhaid i chi hefyd sicrhau bod yr ardaloedd yn union y tu allan i'r bloc yn lân, heb sbwriel na bonion sigarêts. Defnyddiwch y storfeydd biniau allanol a'r biniau sbwriel a'r biniau sigarêts a ddarperir.

Ein cyfrifoldeb ni

Os ydych chi'n byw mewn bloc o fflatiau byddwn yn glanhau'r ardaloedd cymunedol y tu allan i'ch fflat (coridorau, grisiau, mynedfeydd ac ati). Mae'n bosib y gwelwch y tîm glanhau yn ystod yr wythnos ac mae'n bosib y byddant yn dod i mewn i'ch llety weithiau i ddefnyddio offer y Brifysgol, fel hwfer. Yn Neuadd Pantycelyn, sy'n neuadd arlwyo, byddwn yn glanhau'r ardaloedd cymunedol (y cynteddau, y grisiau, y coridorau a'r manau cymdeithasol ar y llawr gwaelod).

Archwiliadau

Cynhelir archwiliadau i asesu glendid eich llety ac i ymdrin ag unrhyw faterion cynnal a chadw, tân neu iechyd a diogelwch i sicrhau eich bod yn ddiogel bob amser. Mae'r archwiliadau hyn yn gyfle i chi i ofyn cwestiynau am eich llety neu unrhyw agwedd arall ar fywyd y Brifysgol.

Archwiliadau Cymunedol

Bydd hyn yn digwydd drwy gydol Cyfnod y Drwydded. Bydd aelod o'r staff yn archwilio'r ardaloedd cymunedol yn eich llety, ee, cegin a rennir, ystafelloedd ymolchi a rennir ayb.

Archwilio'r ystafelloedd gwely

Bydd hyn yn digwydd drwy gydol Cyfnod y Drwydded. Bydd aelod o'r staff yn archwilio eich ystafell wely a'r cyfleusterau en-suite (os yw hynny'n berthnasol).

Canlyniadau archwiliadau

Anfonir canlyniad yr archwiliad atoch i'ch cyfeiriad ebost Prifysgol Aberystwyth, a bydd hefyd yn cynnwys crynodeb byr o'r archwiliad.

Methu archwiliad

Os methwch archwiliad, mae'n bosib y trefnir un arall (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau). Anfonir canlyniad yr ail archwiliad i'ch cyfeiriad ebost Aberystwyth. Os byddwch chi a/neu eich cydletywyr yn methu am yr eildro, bydd y Brifysgol yn gweithio gyda chi i ymdrin â'r sefyllfa; os bydd unrhyw gostau ynghlwm wrth hyn, efallai y codir tâl arnoch am gost cywiro unrhyw fethiant. Ar gyfer unrhyw ardaloedd cymunedol, bydd unrhyw daliadau yn cael eu rhannu rhwng holl drigolion y fflat / tŷ. Efallai bydd eich ystafell a/neu'ch fflat yn cael eu harchwilio'n fwy rheolaidd ac mae'n bosib y cymerir camau disgyblu.

I gael gwybod mwy am lanhau ac archwiliadau, ewch i'r [wefan Byw yn ein Llety](#) (cyfeiriwch at Atodiad 5).

Diogelwch Personol

Mae Aberystwyth yn cael ei chydabod fel un o'r trefi prifysgol mwyaf diogel a chyfeillgar yn y wlad. Er hynny, mae rhai pethau y mae angen i chi eu gwybod er mwyn bod yn ddiogel:

Diogelwch cyffredinol

- Ceisiwch aros ar strydoedd prysur lle mae digon o olau gyda'r nos.
- Cerddwch adref gyda ffrindiau pan fo hynny'n bosib.
- Peidiwch â dangos unrhyw eiddo gwerthfawr.
- Byddwch yn wyliadwrus bob amser.
- Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble rydych chi ac i ble rydych yn mynd.
- Cofiwch gloi pob drws a ffenest. Os na fyddwch yn cloi eich drws, ni fydd eich **yswiriant eiddo personol** yn weithredol.
- Cadwch draw o'r traethau ac o lan y môr pan fo'r tywydd yn wael. Gwrandwch ar y rhybuddion ac ewch i'n tudalennau gwe Diogelwch yn y Dŵr a Thywydd Gwael i gael rhagor o wybodaeth.

Diogelwch trydanol

- Peidiwch â gorlwytho gwifrau estyn (extension cables) a/neu declynnau addasu a gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u ffiwsio. Os ydych yn dod â'r eitemau hyn o dramor, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r foltedd cywir a bod maint y plwg yn gywir. Gweler ein **tudalen Diogelwch Trydanol a Phroffion PAT** ar y we am ragor o wybodaeth.
- Peidiwch â defnyddio offer cegin trydanol yn eich ystafell wely - bydd hynny'n torri amodau eich Trwydded Llety.
- Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau perthnasol ar gyfer pob eitem. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety**.

Profi Dyfeisiau Cluddadwy (PAT)

I'n helpu ni i reoli diogelwch tân, bydd yn rhaid i bob eitem drydanol sydd dros 12 mis oed gael prawf PAT cyn y cewch ei defnyddio yn Llety'r Brifysgol. Mae'n ofynnol i chi gael profion PAT ar gyfer yr eitemau cyn cyrraedd, fel y byddwch yn gwybod eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Ni chaniateir defnyddio unrhyw eitemau trydanol sy'n hŷn na 12 mis oed ac nad ydynt wedi cael prawf PAT yn y llety. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd unrhyw eitemau trydanol sydd heb gael prawf PAT neu na ellir profi eu bod yn iau na 12 mis oed yn cael eu symud o'ch llety. Yna fe'u cedwir ichi eu casglu ar ddiwedd eich Cytundeb Trwydded.

Am ragor o wybodaeth, gweler ein **tudalen Diogelwch Trydanol a Phroffion PAT**.

Diogelwch Tân

Y perygl mwyaf i fyfyrwyr sy'n **byw mewn llety preswyl** yw tân. Yn syth ar ôl cyrraedd, dylech ddarllen yr arwydd yn eich ystafell sy'n dweud beth i'w wneud os bydd tân.

Os ceir hyd i eitem sy'n cael ei hystyried yn beryglus a/neu wedi'i gwahardd yn eich llety, byddwn yn mynd â'r eitem oddi yno ac yn rhoi derbynneb eitemau wedi'u cymryd ymaith i chi. Yna, bydd Tîm Rheoli Preswylfeydd yn cysylltu â chi. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety**.

Archwiliadau Diogelwch Tân

Yn rhan o'n dyletswydd i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Universities UK, rhaid i'r Brifysgol gynnal archwiliad diogelwch tân tra byddwch yn byw gyda ni. Bydd yr archwiliadau hyn yn cynnwys yr holl ardaloedd cymunedol yn eich neuadd, megis y coridorau, y landins, y ceginau a rennir a'r ystafelloedd cymdeithasol. Cewch fanylion yr archwiliadau diogelwch tân ar ein **tudalen Byw yn ein Llety**.

Camau diogelwch tân

Mae synhwyrdd mwg a/neu wres ym mhob adeilad. Mae ffaniau echdynnu (lle bo hynny'n berthnasol) yn y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi, a disgwylir i chi eu defnyddio pan fo'u hangen. Mae blancedi tân yn y ceginau i'w defnyddio ar danau coginio. Mae drysau tân ym mhob adeilad a fydd yn cau'n awtomatig ac yn atal tân a mwg rhag lledu. Mae'r dodrefn a ddarperir yn eich llety'n cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Mae offer diffodd tân ym mhob llety er mwyn ymdrin â thanau bach. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i chi defnyddio diffoddydd heblaw bod llwybr dianc clir ar gael i chi a'ch bod yn gallu defnyddio'r diffoddydd yn hyderus. Mae'r cyfarwyddiadau wedi'u hargraffu ar ochr y diffoddydd ond mae'n fwy diogel i chi adael yr adeilad os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud. Peidiwch â defnyddio diffoddydd dŵr ar offer trydanol.

Larymau/ymarferion tân

Mae'r larymau tân yn cael eu profi'n wythnosol ym mhob adeilad er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Mae amserlen profi'r larymau ar gael ar y **wefan Byw yn ein Llety**. Os bydd y larwm yn canu ar unrhyw adeg arall, rhaid i chi adael yr adeilad. Os yw'r larwm yn canu'n ddi-dor, hyd yn oed yn ystod prawf, rhaid i chi adael yr adeilad.

Os gwelwch dân, seiniwch y larwm yn syth drwy dorri'r gwydr, gadewch yr adeilad ac yna ffonio 999.

Yn rhan o'n cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Universities UK (UUK), rhaid i'r Brifysgol gynnal ymarferion tân yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn byw gyda ni. Gall methu â gadael yr adeilad arwain at gamau disgybliedig. Mae gan rai preswylfeydd system rag-larwm ychwanegol. I weld os oes gan eich llety system rag-larwm, ewch i **weddalen Byw yn un o'r Neuaddau**.

Gadael yr Adeiladau

Os ydych yn meddwl y bydd hi'n anodd i chi adael yr adeilad mewn argyfwng, mae'n bosib y bydd angen Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng ('PEEP') arnoch, neu efallai y bydd angen gwneud addasiadau eraill. A allwch chi glywed y larwm tân ymhob sefyllfa (e.e. tra byddwch yn cysgu neu'n cael cawod)? A allwch chi symud i'r grisiau yn hawdd os clywch chi'r larwm tân? A allwch chi fynd i lawr y grisiau yn hawdd a chyflym, heb gymorth? Os mai 'na' oedd eich ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Hygyrchedd** i drafod eich PEEP neu'r addasiadau y dylid eu gwneud ar eich cyfer. Os na fyddwch yn datgelu materion hygyrchedd sylweddol efallai y cewch eich rhoi mewn llety anaddas, ac fe allai olygu y byddwch yn torri cytundeb eich trwydded llety.

Storio

Ni ddylech gadw neu storio eitemau, gan gynnwys beiciau, mewn coridorau, ar risiau neu lle maent yn rhwystro drysau. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol er mwyn eich cadw'n ddiogel ac er mwyn sicrhau bod y llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir. Os ydych am ddod â beic i'r Brifysgol, mae gennym nifer o lefydd diogel i storio beiciau dan do o gwmpas ein neuaddau preswyl er mwyn ichi eu storio'n ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth am storio eich beic yn ddiogel, ewch i'n **tudalen Byw yn ein Llety**.



Cofiwch:

- Peidiwch â gosod rhywbeth i gadw drws tân ar agor.
- Gwnewch yn siŵr nad oes braster na saim ar y ffwrn na'r gril; mae llosgi braster yn creu mwg. Gair i gall: rhowch bapur arian ar waelod y badell grilio.
Gair i gall: rhowch bapur arian ar waelod y badell grilio.
- Agorwch y ffenest / awyrell ffenestr wrth goginio.
- Peidiwch byth â gadael bwyd sy'n coginio nac offer trydanol sydd wedi'u cynnau heb neb yn gofalu amdanynt.
- Peidiwch byth â choginio pan fyddwch wedi blino neu dan ddylanwad alcohol/cyffuriau.
- Peidiwch â rhoi gwrthrychau metel, megis cyllyll a ffyrc ac ati, yn y popty ping na'r tostiwr.
- Rhowch y ffan echdynnu (lle bo hynny'n berthnasol) ar waith wrth goginio neu gael cawod.
- Cadwch erosolau, sychwyr/sythwyr gwallt oddi wrth synwryddion gwres.
- Cadwch ddrysau'r gawod ar gau wrth gael cawod ac ar ôl gorffen er mwyn atal y stêm rhag dianc.
- Peidiwch ag ymyrryd â larymau mwg/tân nac offer tân. Rhowch wybod i'r staff yn syth os oes rhywbeth wedi torri.

Iechyd a Chymorth

Mae'r Brifysgol yma i'ch helpu ag unrhyw faterion neu bryderon sydd gennych. Rydym am sicrhau eich bod yn teimlo'n dda - yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mewn argyfwng meddygol ffoniwch 999.

Cofrestru â meddyg teulu

Rydym yn eich cyngori i gofrestru â meddyg teulu lleol cyn gynted â phosib er mwyn i chi allu cysylltu â'r meddyg os byddwch yn sâl.

Mae amryw o feddygfeydd ar gael yn Aberystwyth, p'un a ydych yn byw ar y campws neu yn y dref.

Brechiadau

Rydym yn argymhell y dylech fod wedi cael y brechiadau arferol canlynol cyn cyrraedd, os yw'n bryd i chi eu cael: covid, llid yr ymennydd (MenACWY), MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela), difftheria, polio, tetanws a'r feirws papiloma dynol (HPV). Rydym yn argymhell hefyd y dylai myfyrwyr o wledydd lle ceir llawer o achosion o dwbercwlosis gael eu brechu rhag TB.

Myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd parhaus

Os oes gennych gyflwr iechyd parhaus, dylech sicrhau eich bod yn dod â gwerth mis o'ch meddyginiaeth ddiweddaraf gyda chi, a dylech ystyried sut y byddwch yn storio eich meddyginiaeth ac yn cael gwared ag offer (megis EpiPens) yn ddiogel. Cysylltwch â ni i gael cyngor am y mater hwn.



Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn darparu cyngor ac arweiniad ar ystod o faterion emosiynol a materion lles, gan weithio gyda myfyrwyr i ddatblygu sgiliau oes i'w galluogi i ffynnu. Mae'r cynghorwyr cymwysedig a'r ymarferwyr iechyd meddwl arbenigol yn gallu cynnig sgysiau sydyn, apwyntiadau un-i-un a sesiynau hyfforddi hunan-ddatblygu. Gallwch lenwi eu ffurflen gofrestru ar-lein i ddweud wrthynt am eich anawsterau neu i fynegi pryderon am fyfyrwr arall, a bydd ymarferydd yn cysylltu â chi. Mae eu tudalennau gwe yn cynnig amrywiaeth o adnoddau defnyddiol a gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth a chyngor 24/7 a beth i'w wneud mewn argyfwng.

Gwasanaeth Hygyrchedd i Fyfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr a chanddynt gyflyrau iechyd cronig a pharhaus, anabledau corfforol a/neu synhwyraidd, gwahaniaethau dysgu penodol (e.e. dyslecsia) neu gyflyrau'r sbectwm awtistig. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo myfyrwyr i gyflwyno unrhyw addasiadau rhesymol sy'n angenrheidiol ar gyfer y llety neu i'w cynorthwyo i gael mynediad i'w cwrs a gall hefyd gynghori ynghylch opsiynau cyllido megis y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA). Mae gan Brifysgol Aberystwyth Ganolfan Asesu sy'n asesu anghenion astudio myfyrwr anabl trwy'r broses DSA. I gysylltu â Chynghorwr Hygyrchedd ebostiwrch: hygyrchedd@aber.ac.uk

Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn rhoi cyngor a chymorth ar amrywiaeth o weithdrefnau'r Brifysgol a materion ariannol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweinyddu'r Gronfa Galedi'r Brifysgol ac mae'n gallu cynghori ar faterion sy'n ymwneud ag urddas a pharch.

Mae cyngor a gwybodaeth ar gael gan Cymorth i Fyfyrwyr - 01970 621761 / student-support@aber.ac.uk.

Cyngor ynghylch fisâu

Mae'r Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn helpu myfyrwyr sy'n gofyn am gyngor ynghylch fisâu ar ôl iddynt gyrraedd yma. Cewch ragor o wybodaeth yma: www.aber.ac.uk/en/international/visa-immigration-compliance/visas-support-advice/

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gael i'ch helpu i gynllunio eich dyfodol. Gall gynnig cyngor, arweiniad a gwybodaeth i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth - hyd yn oed graddedigion! Gall eich helpu o'r funud y cyrhaeddwch drwy roi cyngor am swyddi lleol, sut i wneud yn fawr o'ch amser yn y Brifysgol a sut i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau i hybu'ch CV. Beth bynnag fo'ch syniadau am eich gyrfya yn y dyfodol, neu os nad oes gennych ddim syniad o gwbl, gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu.

I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Gyrfaoedd** neu anfonwch ebost i careers@aber.ac.uk.



Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMAb)

Dan arweiniad myfyrwyr a chyda chymorth tîm o staff, mae **Undeb y Myfyrwyr** am i fyfyrwyr Aber fod wrth eu bodd â bywyd myfyrwyr a bod yn barod am bopeth. Mae'n gweithio i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn cael siwrnai anhygoel, eu bod yn hapus, yn iach ac wedi'u grymuso, eu bod yn gwneud ffrindiau am oes ac yn wynebu dyfodol addawol.

Undeb Myfyrwyr Aber yw 'llais y myfyrwyr', ac mae'n darparu cymorth a chyfleoedd i fyfyrwyr Aber yn ystod eu cyfnod yma.

Mae'r Undeb yn cynnig cyfleoedd dirifedi. Gallwch ymuno â chlwb neu gymdeithas chwaraeon, gallwch wirfoddoli neu gynrychioli myfyrwyr eraill, yn academiaidd ac yn anacademaidd. Hon yw'r ffordd orau o wneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd. Y peth anoddaf fydd dewis pa rai! Cewch ragor o wybodaeth drwy fynd i:

www.umaber.co.uk / www.abersu.co.uk

Mae Gwasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol sy'n rhad ac am ddim i bob myfyrwr ym Mhrifysgol Aber. Mae Cynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn staff sydd wedi'u hyfforddi i'ch helpu chi ag ystod o faterion gwahanol, ac maent yn arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth sy'n ymwneud â phrosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

Galwch i mewn i siarad â Chynghorydd - holwch am y gwasanaeth yn nerbynfa Undeb y Myfyrwyr neu anfonwch e-bost at: undeb.cyngor@aber.ac.uk. Ewch i www.umaber.co.uk/cyngor i gael rhagor o wybodaeth.

Chwaraeon, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles

Mae cadw'n heini yn rhan bwysig o'n bywydau. Gall helpu i'ch cadw chi a'ch meddwl yn iach. Mae'n gyfle gwych i roi cynnig ar rywbeth newydd a dod i adnabod pobl newydd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyfle i chi i ymaelodi â thros 100 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau.

Y Ganolfan Chwaraeon

Gan eich bod yn byw yn un o'n neuaddau preswyl, cewch **Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon YN RHAD AC AM DDIM** - sy'n golygu y cewch ddefnyddio hynny a fynnoch ar lawer o adnoddau'r ganolfan chwaraeon.

Chwarae, ymarfer corff, cael hwyl, cystadlu neu ymlacio... mae camp neu weithgaredd sy'n berffaith i chi. Rydym yn fwy na dim ond campfa:


- Y gampfa a'r ystafell Pwysau Rhydd - yn llawn offer o'r radd flaenaf
- Y pwll nofio a'r sawna
- BoxRox - wal ddringo dan do
- Dosbarthiadau Ymarfer i Grwpiau a Sbinio - HIIT, Zumba, ymarferion cylchol, ioga a nifer fawr o ddsbarthiadau ffitrwydd i'r corff a'r meddwl
- Os ydych yn mynd yn selog i'r gampfa neu os yw hyn yn rhywbeth cwbl newydd ichi, mae gennym ddsbarthiadau sy'n addas i bawb - i wella'ch ffitrwydd a gwneud ichi deimlo'n well!

Law yn llaw â'n cynnig aelodaeth, cewch archebu'r: ystafell ddawns, cyrtiau sboncen, neuadd chwaraeon, cawell chwaraeon, cyrtiau tenis, trac rhedeg, cae artiffisial â llifoleuadau a chae 3G.

Yn newydd ar gyfer 2021 - ein campfa loeren '24 awr' sydd wedi'i lleoli i lawr y grisiau yn Yr Hwb, drws nesaf i Fferm Penglais a PJM. Yn llawn offer ffitrwydd Matrix o'r radd flaenaf i chi eu mwynhau!

Sylwer mae'n bosib y codir tâl ychwanegol am y rhain.

I gael gwybod mwy, ewch i: sports@aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 622280



Gwasanaethau Croeso

Mae gan y Gwasanaethau Croeso nifer o Gaffis, Bwytai a Siopau ledled y campws sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Yma gallwch ddewis o blith prif brydau, byrbrydau, a diodydd a gallwch hefyd brynu bwydydd i'w coginio yn ein siop hwylus. Mae'r holl fyfyrwyr yn cael 10% o ostyngiad ar bris yr holl fwyd a diod, sy'n ysgogiad ychwanegol.

Gallwch hefyd fanteisio'n awr ar ein pecynnau prydau hyblyg 'Bwyta gyda ni, Siopa gyda ni', hyd yn oed os ydych yn byw mewn llety hunanarlwyo! Maent yn cynnig gwerth gwych am arian a gallwch fwyta'r hyn a fynnwch, pryd bynnag y mynnwch, lle y mynnwch, o brydau poeth i Starbucks ar grwydr neu brynu cynhwysion i'w coginio eich hun.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth dosbarthu ardderchog 'Nosh Da' - archebwch o'ch dyfais symudol i gael prydau tecawê poeth yn sydyn neu i gael nwyddau wedi'u cludo i'ch llety. Rydym yn dosbarthu i unrhyw lety Prifysgol Aberystwyth ar, neu oddi ar y campws, 7 diwrnod yr wythnos. Rydym yn derbyn taliadau CerdynAber yn ogystal â'r cardiau debyd a chredyd arferol.

Os ydych chi'n dewis un o'n pecynnau cynllun bwyd, rhoddir digon o arian yn awtomatig ar eich 'Cerdyn Aber' i brynu o leiaf un prif bryd y dydd yn ein caffis, ein bwytai a'n siopau bwyd arobryn. Yn ogystal â chael gostyngiad o 10% wrth dalu, byddwch yn cael gwerth £100 o dalebau os dewiswch y pecyn blwyddyn lawn, neu £25 gyda'r pecynnau tymhorol.

Am ragor o fanylion ac i weld y pecynnau sydd ar gael, a'r costau, ewch i'n **gwefan Gwasanaethau Croeso**.




Teithio a Pharcio

Mae sawl ffordd o deithio o amgylch Aberystwyth. Tref fach yw Aberystwyth, ac mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau o fewn pellter cerdded. Ond mae ffyrdd eraill o deithio heblaw cerdded.

Beicio

Mae cymuned feicio frwd yn Aberystwyth. Mae'n ffordd wych o deithio o amgylch y dref! Mae'r Brifysgol yn darparu storffeydd beiciau diogel mewn amryw o neuaddau preswyl er mwyn i chi gael cadw eich beic yn ddiogel gan na chewch ei gadw yn eich ystafell wely nac yn yr ardaloedd cymunedol.



I gael rhagor o wybodaeth am storio'ch beic yn ddiogel, ewch i'n **wefan Byw yn ein Llety**.

Bysiau

Mae amryw o wasanaethau bus rheolaidd sy'n gwasanaethu dau brif gampws y Brifysgol ar gael i'r myfyrwyr. Gallwch hefyd brynu cerdyn bus myfyriwr o Undeb y Myfyrwyr i arbed arian a chael gostyngiad ar wasanaethau bus eraill!

Mae gorsaf drenau y drws nesaf i'r orsaf fysiau, ynghyd â thacsis lleol.

Ceir, beiciau modur a pharcio

Mae parcio'n gyfyngedig yn Aberystwyth, yn y dref ac ar y campws. Os oes raid i chi gael cerbyd, a'ch bod eisiau parcio ar y campws, bydd angen trwydded barcio arnoch. I gael gwybod mwy neu i ofyn am drwydded, ewch i'r **wefan Parcio**.



Symud Allan

P'un a yw cyfnod eich cytundeb trwydded wedi dod i ben, neu eich bod yn symud i ystafell arall, neu'n gadael eich llety'n gynt na'r disgwyl. Bydd yn ddrwg gennym ffurweliu â chi beth bynnag fo'r rheswm. I sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus, dyma rai camau syml i chi eu dilyn:

- Bydd angen i chi adael eich llety'n lân ac yn daclus fel yr oedd pan gyrhaeddoch chi, gan gynnwys eich ystafell wely (a'r ystafell ymolchi, os yw hynny'n berthnasol) a'r holl ardaloedd cymunedol.
- Rhaid i'r holl ddodrefn fod yno ac yn ôl yn eu safleoedd gwreiddiol.
- Rhaid i chi gloi eich ystafell a dychwelyd eich allwedd i erbyn 10:00am ar ddiwrnod olaf eich Trwydded.
- I gael gwybod mwy, gweler y **rhestr wirio symud allan**.

Os na fyddwch yn mynd â'ch holl eiddo o'r neuadd breswyl, byddwn yn mynd â'ch pethau chi a byddwn yn eu storio am 7 diwrnod ar ôl i'ch Cytundeb Trwydded Llety ddod i ben. (Os ydynt yn bethau sy'n pydru, byddwn yn gwaredu â nhw'n syth). Os na fyddwch wedi casglu eich eitem(au) o fewn 7 diwrnod o ddiwedd eich Cytundeb Trwydded Llety, neu erbyn dyddiad arall y cytunwyd arno, bydd y Brifysgol yn gwaredu â nhw fel y gwêl yn dda, gan gynnwys trefnu i'r eitemau hynny gael eu storio neu waredu â nhw, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Gadael yn ystod cyfnod y drwydded

Ar ôl i chi gytuno i'r Telerau ac Amodau Llety a'u derbyn, a chwblhau'r Pecyn Trwydded, byddwch yn atebol am dalu ffi'r llety am gyfnod y drwydded, hyd yn oed os gadewch y llety cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Serch hynny, efallai y bydd modd eich rhyddhau o'ch Cytundeb Trwydded Llety os ydych yn ymadael â'r Brifysgol, os yw eich astudiaethau academaidd yn newid, neu os gallwch ddod o hyd i denant addas i gymryd eich lle.

Os ydych yn bwriadu gadael oherwydd eich bod yn ymadael â Phrifysgol Aberystwyth, dim ond ar ôl i ni gael cadarnhad o'ch dyddiad diwedd gan y swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion y byddwn yn eich rhyddhau o'ch Cytundeb Trwydded Llety. Codir tâl arnoch nes y dyddiad y byddwch yn

symud allan o'ch llety neu ddyddiad gorffen eich cwrs - pa un bynnag sydd ddiweddaraf. Ni fydd modd i chi barhau i fyw yn llety'r brifysgol ar ôl i'ch cais i dynnu'n ôl gael ei gadarnhau oherwydd na fyddwch bellach wedi'ch cofrestru fel myfyriwr.

I gael gwybod mwy am sut i wneud cais i ddod â'ch Cytundeb Trwydded Llety i ben yn gynnar, cysylltwch â'r Swyddfa Llety.

Symud i lety arall

Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn eich llety, ond rydym yn deall nad felly y mae hi bob amser, am amryw o resymau. Felly, rydym yn cynnig proses lle gallwch wneud cais i symud i lety arall yn y Brifysgol. I gael gwybod mwy, ewch i'n **gwefan Ceisiadau Trosglwyddo**.

Os nad ydych yn siŵr a ydych am newid ystafell neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn neu ar ôl trosglwyddo, neu yn ystod y broses, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Rheoli Preswylfeydd neu'r Swyddfa Llety.

Eiddo nad oes ar neb ei eisiau

Peidiwch â thafu'r pethau nad ydych eu heisiau mwyach - efallai y bydd modd i chi eu rhoi i achosion da!

I gael gwybod mwy, ewch i'n **gwefan Symud Allan**.

Bydd yr holl eitemau a roddir yn cael eu rhoi i elusennau lleol ac i Undeb y Myfyriwr.

Modiwl Symud Allan

Cyn ichi fynd, gofynnir ichi gwblhau ein 'Modiwl Symud Allan', y gallwch ei ganfod yn eich manylion cynefino ar y Porth Llety. Yn ystod y modiwl hwn byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am adael ar Derfyn neu yn ystod eich Cyfnod Trwydded, y Prosiect Symud Ymlaen, Cael eich Blaendal yn Ôl, a Storio. Gofynnir ichi hefyd lenwi arolwg adborth byr.

Arhoswch gyda ni!

Dyw'r ffaith bod eich Trwydded wedi dod i ben ddim yn golygu na chewch fyw gyda ni yn y flwyddyn academaidd nesaf. Rydym yn cynnig llety i israddedigion ac uwchraddedigion yn eu hail, eu trydedd a'u pedwaredd flwyddyn. Byddem wrth ein bodd eich croesawu'n ôl!

**BYW
GYDA NI
AROS
GYDA NI**

Pam Aros Gyda Ni?

- Pan fyddwch yn gwneud cais, ni fyddwch wedi ymrwymo i'r Drwydded hyd nes i chi gadarnhau eich lle yn ddiweddarach.
- Mae'r holl filiau ynni wedi'u cynnwys.
- Ynghyd â chyswllt cyflym gwifredig a di-wifr â'r rhyngwyd.
- Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.
- Dewiswch fyw gyda ffrindiau, neu wneud cais yn unigol, neu fel grŵp bach, er mwyn cael rhannu llety â myfyrwyr eraill sy'n dychwelyd, mewn fflatiau / tai o rhwng 5 a 10 ystafell wely.
- Os ydych eisoes yn byw gyda ni, does dim angen talu blaendal arall!*. Ond fel arall, dim ond £100 yw'r blaendal.
- Cyfleusterau golchi dillad ar y safle.
- Cymorth 24/7 - gan gynnwys derbynfa wedi'i staffio.
- Yswiriant Eiddo Personol yn gynwysedig.
- Cynlluniau talu ar gael i dalu ffioedd llety.
- Trwydded blwyddyn academaidd - dim rhent haf, dim angen gwarantwyr a dim cyd - denantiaethau a sawl tenantiaeth.
- Trwyddedau am ystod o gyfnodau gwahanol ar gael ynghyd â llety'r Brifysgol dros yr haf.

*Os ydych eisoes wedi talu blaendal i ni bydd yr hyn sy'n weddill yn sicrhau eich lle yn y flwyddyn academaidd nesaf, ond os yw eich blaendal wedi gostwng i lai na'r £100 gofynnol bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ddiffyg.

Torri Amodau eich Trwydded

Cyfeiriwch at Atodiadau 1, 2, 4 a 6

Rhybudd Anffurfiol	<p>Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad a'r canlyniad yn ysgrifenedig. Oherwydd hynny, mae'n bosib y cewch gyngor priodol ynglŷn â sut i ymddwyn yn well. Gallech gael eich gwahodd hefyd i drafod y mater. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety.</p>
Rhybudd Ysgrifenedig	<p>Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad yn ysgrifenedig. Cewch eich gwahodd i gyfarfod disgyblu ffurfiol â'r Tîm Rheoli Neuaddau Preswyl. Bydd manylion y digwyddiad yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r canlyniad. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety.</p>
Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol	<p>Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad yn ysgrifenedig. Cewch eich gwahodd i gyfarfod disgyblu ffurfiol â'r Tîm Rheoli Neuaddau Preswyl. Bydd manylion y digwyddiad yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r canlyniad. Cofwch: efallai y cewch eich gofyn i symud i lety arall bryd hynny, neu efallai y bydd angen ichi adael eich llety. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety.</p>
Cyfeirio at yr Uwch Swyddog Priodol	<p>Os ceir achosion parhaus neu ddifrifol iawn o dorri'r Cytundeb Trwydded neu reolau'r Brifysgol, bydd yr Uwch Swyddog Priodol yn cael ei hysbysu. Yna, bydd yr Uwch Swyddog Priodol yn cynnal gwrandawriad disgyblaethol. Cofwch: gallech gael eich cyfeirio i'r Panel Disgyblaethol a gallech gael eich atal neu eich gwahardd o'r Brifysgol.</p>

Mae'n hollbwysig eich bod chi ac unrhyw un sy'n ymweld â chi'n cydymffurfio â phob un o'n rheoliadau. Os na wnewch hyn, byddwn yn cymryd y camau disgyblu gyferbyn.

Gall y camau disgyblu hyn amrywio yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad.

Os gofynnir i chi gwrdd â staff i drafod achos o dorri amodau eich trwydded, mae gennych hawl i fynd â rhywun gyda chi pan fydd y mater yn cael ei drafod.

Os na fyddwch yn bresennol mewn dau gyfarfod Torri Amodau Trwydded heb ichi fod wedi rhoi rhybudd digonol a gwneud trefniadau eraill, bydd y cyfarfod yn mynd yn ei flaen a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn eich absenoldeb.

Torri Amodau Eich Trwydded

Wrth i'r staff ymchwilio i achos o dorri amodau trwydded, mae'n bosib y bydd gofynion yn cael eu rhoi arnoch er mwyn atal achosion o dorri amodau trwydded neu darfu yn y dyfodol.

Torri'r amodau mewn modd difrifol neu dro ar ôl tro:

Gellir cymryd y camau hyn yn erbyn preswlydd a geir yn torri amodau ei Gytundeb Trwydded Llety yn gyson neu mewn modd difrifol:

- Gwaharddiad rhag ailymgeisio am lety'r Brifysgol mewn blynyddoedd academaidd i ddod.
- Eich gwahardd o lety'r Brifysgol yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd i ddod.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen symud unigolion i lety arall naill ai am resymau disgyblu neu am resymau lles. Er y gwneir pob ymdrech i'w symud i lety am bris tebyg, mae'n bosib y bydd symud preswylwyr i ystafelloedd mewn band pris gwahanol yn cael effaith ariannol arnynt.

Hawl i Apelio

Mae gennych hawl i apelio yn erbyn canlyniad cyfarfod Torri Amodau. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig i'r Uwch Swyddog Priodol ymhen 14 diwrnod ar ôl derbyn llythyr yn cadarnhau'r camau a gymerwyd.

Atodiad 1 - Torri Amodau Trwydded Llety

POBL

Camau / Unigolyn Cyfrifol		CATEGORI 1			Categori 2
ENGHREIFFTIAU O'R YMDDYGIAD		Anffurfol	Ffurfol (1)	Ffurfol (2)	
Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrices.		Aelod o'r Tim Rheoli Preswylfeydd	Aelod o'r Tim Rheoli Preswylfeydd	Aelod o'r Tim Rheoli Preswylfeydd	Uwch Swyddog Priodol
Camymddwyn Corfforol (tarfu ar breswylwyr / y gymuned gan gynnwys ymddygiad ymosodol)	Dyrnu / cicio / rhoi clatsien / tynnu gwallt / brathu			X	
	Gwrthio / rhoi hergwd			X	
	Cael cyfathrach rwiol neu gyflawni gweithred rwiol heb gydsyniad				X
	Ceisio cael cyfathrach rwiol neu gyflawni gweithred rwiol heb gydsyniad				X
	Rhannu deunyddiau rhywiol preifat rhywun arall heb gydsyniad				X
	Cusanu heb gydsyniad				X
	Cyffwrdd yn amhriodol drwy ddillad heb gydsyniad				X
	Dangos organau rhywiol yn amhriodol i rywun arall				X
	Dilyn rhywun arall dro ar ôl tro heb reswm da				X
	Gwneud sylwadau dieisiau o natur rwiol				X
	Bod ag arfau yn eich meddiant / defnyddio arfau				X
	Bygwth brifo rhywun arall				X
Camymddwyn Rhywiol	Sylwadau difriol ynghylch rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hll, beichiogrwydd / mamolaeth, priodas / partneriaeth siffl, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran unigolyn				X
	Ymddwyn mewn modd bygythiol neu eilynaethus				X
	Bwlio				X
	Cysylltu â rhywun arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, ebost, neges destun neu safleoedd rhywydweithio cymdeithasol) yn erbyn ewyllys y person hwnnw				X
	Diflastod swm	X			
Ymddygiad Difriol / Gwrthgymdeithasol - Difriol staff - Tarfu ar breswylwyr / y gymuned gan gynnwys ymddygiad difriol	Ymyrryd yn amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyrwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol				X

D.S. Bydd aildrodd yr un drosedd fel arfer yn golygu yr ymdrinnir â'r mater ar lefel uwch.

Atodiad 2 - Torri Amodau Trwydded Llety

EIDDO

Camau / Unigolyn Cyfrifol

ENGHREIFFTIAU O'R YMDDYGIAD	CATEGORI 1			Categori 2
	Anffurfol	Ffurfol (1)	Ffurfol (2)	
Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrics.	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswyfeydd	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswyfeydd	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswyfeydd	Uwch Swyddog Priodol
Achos difrod sylweddol i eiddo'r Brifysgol neu i eiddo myfyrwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol				X
		X		
Difrodi Eiddo			X	
	Peryglu diogelwch preswylwyr e.e. gosod rhywbeth i gadw drws flat ar agor neu ei adael ar y glicied / rhoi allwedd / codau / cardiau i rywun arall			X
	Mynd i mewn i safleoedd y Brifysgol neu eu defnyddio heb ganiatâd			X
	Mynd ag eiddo sy'n berchen i rywun arall heb ganiatâd	X		
Mynd i Mewn i Eiddo, Mynd ag Eiddo neu ei Ddefnyddio Heb Ganiatâd	Camdefnyddio eiddo'r Brifysgol (defnyddio eiddo at ddibenion heblaw'r rhai y'i bwriadwyd ar eu cyfer)	X		
	Bod ag eitemau gwaharddedig yn eich meddiant		X	
	Gweithred / anwaith sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol ar safleoedd y Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, bod â chyffuriau a reolir / cyfarpar cyffuriau yn eich meddiant neu eu cyflenwi)			
Achos Pryder Iechyd a Diogelwch	Gweithred / anwaith sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safleoedd y Brifysgol (er enghraifft, ysmegu sigarennau mewn ardaloedd heblaw rhai dynodedig)	X		
	Ardaloedd cymunedol anniben	X		

Atodiad 2 - Torri Amodau Trwydded Llety (parhad)

EIDDO

Camau / Unigolyn Cyfrifol

ENGHREIFFTIAU O'R YMDDYGIAD	CATEGORI 1			Categori 2
	Anffurfiol	Ffurfiol (1)	Ffurfiol (2)	
<p>Mae'r Britysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrices.</p>	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswylfeydd	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswylfeydd	Aelod o'r Tîm Rheoli Preswylfeydd	Uwch Swyddog Priodol
	X			
	Gwaredu gwasttraff mewn modd anghywir	X		
	Peidio â chydweithredu yn ystod digwyddiad	X		
	Ymyrryd â'r system larwm tân			X
	Difrodi drysau tân / caewyr			X
	Ymyrryd yn amhriodol ag offer diffodd tân		X	
	Gadael bwyd heb oruchwyliaeth wrth goginio		X	
	Larwm ffug: coginio / ysmegu / aerosol / sychwr gwallt ac ati		X	
	Peidio â chwblhau hyfforddiant lechyd a Diogelwch gorfodol	X		
<p><i>Achosi Pryder Iechyd a Diogelwch</i> (parhad)</p> <p><i>Diogelwch Tân</i></p>	Defnyddio barbeciw ar y safle	X		
	Coginio mewn ystafell wely		X	
	Dechrau tân yn fwriadol			X
	Seinio larwm tân yn faleisus			X
	Gosod rhywbeth i gadw drws tân ar agor		X	
	Bod â than gwyllt yn eich mediant / defnyddio tân gwyllt			X
	Peidio â gadael yr adeilad yn ystod larwm tân			X
	Rhwystro llwybrau gadael		X	

D.S. Bydd ailadrodd yr un drosedd fel arfer yn golygu yr ymdrinnir â'r mater ar lefel uwch.

Atodiad 3 - Targedau Amseroedd Datrys Cynnal a Chadw

Cwrt Mawr, Rosser, Trefloyne, Pantycelyn, PJM

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r amseroedd targed ar gyfer ymateb a thrwsio nam). Yn achos 'Nam Brys' mae'n bosibl mai trwsio dros dro fydd yr ymateb cyntaf, a thrwsio'r nam yn barhaol wedyn cyn gynted â phosibl.

	Gwaith Atgyweirio Brys	Gwaith Atgyweirio Parhaol	Gwaith Atgyweirio Cyffredinol
Ffabrig yr adeliad	6 awr	5 diwrnod	4 wythnos
Draenio	6 awr	5 diwrnod	4 wythnos
Darnau gosod a gosodiadau	6 awr	5 diwrnod	4 wythnos
Lloriau a gorchudd llawr	6 awr	7 diwrnod	7 diwrnod
Gorffeniadau addurniadol	Amherthnasol	Amherthnasol	4 wythnos
Gwres, system ddŵr a gosodiadau glanweithdra	6 awr	7 diwrnod	7 diwrnod
Gosodiadau trydan	6 awr	7 diwrnod	7 diwrnod
Larymau tân a mwg	6 awr	7 diwrnod	7 diwrnod
Diffoddwyr tân	Amnewid o fewn 24 awr		
Offer hanfodol (e.e. methiant llwyr cleon, poply, oergell, gwely)	Amnewid o fewn 24 awr		
Offer arall	Amnewid o fewn 7 diwrnod		
Ffyrdd, llwybrau ac ati	1 diwrnod	5 diwrnod	4 wythnos
Gwaith allanol	Amherthnasol	Amherthnasol	4 wythnos

Rheoli Pia

Ymatebwr i faterion a gofnodwyd o fewn 24 awr

Diffiniadau:

Mae **Gwaith Atgyweirio Brys** yn golygu digwyddiadau sydd angen gwaith atgyweirio ar unwaith i osgoi risg iechyd a diogelwch difrifol a/neu ddifrod ôl-ddilynol mawr i'r adeliad nail ai drwy unioni neu atgyweirio dros dro.

Mae **Digwyddiad** yn golygu, mewn perthynas ag unrhyw Ymrwymiad Rheolaeth, methiant i gyflawni unrhyw Safon Perfformiad perthnasol y rhoddwyd gwybod amdano i'r Ddesg Gymorth.

Mae **Gwaith Atgyweirio Dros Dro** yn golygu, mewn perthynas â Gwaith Atgyweirio Brys, gwaith a wneir sydd o natur dros dro nes y gellir gwneud y Gwaith Atgyweirio Parhaol.

Mae **Gwaith Atgyweirio Parhaol** yn golygu unioni Gwaith Atgyweirio Dros Dro.

Mae **Gwaith Atgyweirio Cyffredinol** yn golygu unrhyw waith atgyweirio ac eithrio Gwaith Atgyweirio Brys neu Waith Atgyweirio Dros Dro ar gyfer Gwaith Atgyweirio Brys.

Atodiad 3 - Targedau Amseroedd Datrys Cynnal a Chadw (parhad)

Fferm Penglais

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r amseroedd targed ar gyfer ymateb a thrwsio nam. Yn achos 'Nam Brys' mae'n bosibl mai trwsio dros dro fydd yr ymateb cyntaf, a thrwsio'r nam yn barhaol wedyn cyn gynted â phosibl.

Categori Blaenoriaeth Unioni	Cyfnod Unioni
Gwaith Atgyweirio Argyfwng	6 awr
Gwaith Atgyweirio Brys	6 awr
Gwaith Atgyweirio Cyffredinol	5 diwrnod
Rheoli Pla	Ymatebdir i faterion a gofnodwyd o fewn 24 awr

Diffiniadau:

Mae **Gwaith Atgyweirio Argyfwng** yn golygu gwaith atgyweirio sydd angen ymateb ar unwaith i atal risg iechyd a diogelwch difrifol a/neu ddifrod ôl-ddilynol mawr i adielad a/neu'r ardal gyfagos.

Mae **Gwaith Atgyweirio Brys** yn golygu gwaith atgyweirio i unioni risg iechyd a diogelwch ac i ddiogelu a/neu atal difrod ôl-ddilynol bach i adielad a/neu'r ardal gyfagos.

Mae **Gwaith Atgyweirio Cyffredinol** yn golygu gwaith atgyweirio nad yw'n waith Atgyweirio Argyfwng, yn Waith Atgyweirio Brys nac yn Waith Atgyweirio Dros Dro

Atodiad 4 - Eitemau Gwaharddedig

Gweler Adranau 8.8 a 10.2 o Gyfundeb y Trwydded Llety

Mae Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol a'r Gyfundeb trwydded yn eich gwahardd rhag dod ag eitemau penodol i'ch llety am resymau iechyd a diogelwch cyffredinol, diogelwch tân ac amgylchedd. Cymryd camau disgyblaethol os canfyddir bod gan breswylwyr eitemau sy'n cynnwys, neu sy'n debyg i, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol -

Eitem	Manylion Ychwanegol
A	
Anifeiliaid anwes	Ni chaniateir cadw anifeiliaid o unrhyw fath yn unrhyw le yn y llety neu'r tir o amgylch.
Arfau	Unrhyw arfau neu gopiau o arfau, arfau pelenni (BB), arfau peledi paent ac arfau awyr, peniau laser, bwâu croes a bwâu hir, catapyltau, a chyllyll annomestig ac unrhyw eitem arall y mae PA yn barnu ei bod yn arf. Caiff gynnau Tegau eu hatafaelu os cânt eu defnyddio i beri niwsans, a dylid storio cyllyll cegin yng nghegin eich fflat yn unig. Os canfyddir cyllyll yn unrhyw le heblaw'r gegin ystyrir eu bod yn arfau a byddwn yn mynd â nhw oddi yno. Ystyrir bod Lletywyr neu eu gwesteion sy'n berchen ar unrhyw eitem o'r fath yn debygol o fod yn berygl iddynt eu hunain, i fyfyrwyr eraill neu i staff a dyna pam y cymerir yr eitem. Gweithredir yn unol â Rheolau a Rheoliadau PA, a gelwir ar yr Heddlu os bennir bod hynny'n angenheidiol.
Arfau awyr	
Arfau peledi paent	
Arfau pelenni (BB)	
Argraffwyr 3D	
B	
Barbeciws	Wedi eu gwahardd ym mhob rhan o'r campws gan gynnwys y tu mewn i'ch llety ac o'i amgylch.
Blancedi trydan	
Bwâu croes	
Bwâu hir	
Bwrdd Dartiau	
C	
Canhwyllau	Wedi'i oleuo neu heb ei oleuo
Catapyltau	
Cefyn Shisha	
Copiau o arfau	
Cyllyll annomestig	
D	
Dartiau	
Dodrefn Gwynt	
Dyfeisiau pyrotechnegol	
FF	
Ffresnydd aer sy'n cael ei blygio i mewn / toddiadau cwyr	
Ffriwyr saim dwfn	
Ffyn aroglarth	
G	
Goleuadau bach	Caniateir goleuadau tylwyth teg batri a goleuadau LED
Gwresogyddion	
H	
Hors dillad wedi'i gynhesu / sychwyr gwres	

Atodiad 4 - Eitemau Gwaharddedig (parhad)

Item	Additional details
L	
Lampau halogen	
Lampau lafa	
LL	
Llosgyddion olew aromatherapi	
Lluosoddaswyr a roddir yn syth i mewn i'r soced.	
M	
Matshys	
O	
Oeryddion bach	
Offer DJ	
Offer fondue	
Offer a lampau olew	
Offer lliw haul	
Offer nwy	
Offer paraffin	
Offer petrol	
Offerynnau trydan	
P	
Peiriannau coginio araf	
Peiriannau golchi a sychyddion dillad	
Peiriannau grilio	
Peiriant Coginio Reis	<p>Os yw'r peiriant coginio reis yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol gallwch ei ddefnyddio yn y preswylfeydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n rhaid iddo gael plwg 3 phin Prydeinig• Rhaid i'r marc 'CE' ymddangos ar y peiriant (fel rheol ar y label ar ochr y peiriant coginio reis)• Rhaid iddo gael prawf PAT• Rhaid i'r myfyrwyr sicrhau nad ydynt yn gadael y gegin pan fônt yn coginio.• Ni chaniateir addasyddion (i'w defnyddio ar UNRRHYW offer)
Peniau laser	
Poptai bach	
Poptai ping	
S	
Seinchwyddwyr cerddorol	
Sylweddau Anghyfreithlon	<p>Yn cynnwys unrhyw fath o geriach cyffuriau. Mae meddu ar sylweddau sydd wedi'u gwahardd, delio ynddynt neu eu cymryd yn drosedd sy'n mynd yn groes i Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol. Os bydd unrhyw Breswlydd neu westai iddo/iddi yn euog o hyn, gall arwain at gamau disgyblu. Gelwir yr heddlu. Ni chaniateir i geriach cyffuriau fod yn eich mediant.</p>
T	
Tân gwyllt	<p>Wedi eu gwahardd ym mhob rhan o'r campws gan gynnwys y tu mewn i'ch llety ac o'i amgylch.</p>
Tecellau	<p>Yn yr ystafelloedd gwely</p>
Tostwyr	<p>Yn yr ystafelloedd gwely</p>

Atodiad 5 - Costau Safonol

Os caiff rhywbeth ei dorri neu'i ddifrodi bydd angen ei atgyweirio neu brynu un newydd. Gall hyn gostio llawer mwy nag yr ydych yn ei feddwl - ystyriwch gostau llafur, deunyddiau, dosbarthu a TAWI!

GLANHAU

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

Glanhau carped (fesul ystafell)	£25
Glanhau matras	£15
Glanhau cadair ddesg	£10
Glanhau (y glanhäwr/awr 1 ^{af})	£50
Glanhäwr / oriau ychwanegol	£15 fesul awr/glanhäwr
Sbwriel (fesul bag)	£10

AMNEWIDIADAU / GWAITH ATGYWEIRO

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

Newid matras	£90
Cadair ddesg newydd	£90
Peintio (er enghraifft, 1m ²)	£60

Atodiad 6 - Taliadau'n ymwneud â Diogelwch Tân

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

Disgrifiad	Costau
Seinio neu ymyrryd â'r larwm dân: difrodi, gorchuddio, tynnu'r synwryddion mwg, torri gwyrdr	costau
Camddefyddio neu ymyrryd â'r offer tân: cost ail-lenwi a chostau glanhau / sychu	costau
Smygu yn y Llety	costau
Difrod tân	costau

Cytundeb Trwydded Llety

Telerau ac Amodau Byw mewn Llety y Brifysgol

Sy'n ymgorffori llawlyfr y preswylwyr, rheoliadau'r brifysgol ac (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig) telerau'r cynllun cerdyn.

Mae'r Drwydded hon yn ymgorffori'r Manylion ynghyd â thelerau a rheoliadau Llawlyfr y Preswylwyr, Rheoliadau'r Brifysgol ac (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig) Telerau'r Cynllun Cerdyn (fel y caiff y telerau hynny'u diffinio isod).

Dim ond tra bydd y Myfyriwr yn fyfyrwr cofrestredig y Brifysgol y mae'r Drwydded hon yn gymwys.

Ni fydd rhai o ddarpariaethau yn y ddogfen hon ond yn gymwys os yw'r Drwydded (yn ôl yr achos) ar gyfer ystafell ddau-wely neu ar gyfer trwydded dymor neu ar gyfer trwydded arlwygo neu ar gyfer ystafell mewn fflat/tŷ a rennir. Tynnir sylw at ddarpariaethau o'r fath yn y ddogfen hon, fel y bo'n berthnasol.

Mae cyfraith Cymru a Lloegr yn rheoli'r Drwydded hon.

Mae'r Drwydded hon yn creu rhwymedigaethau cyfreithiol-rwym rhwng y Myfyriwr a'r Brifysgol. Os yw'r Myfyriwr yn torri'i rwymedigaethau yn y Drwydded hon, mae gan y Brifysgol nifer o rwymedïau (gan gynnwys unrhyw rai o dan y gyfraith sifil neu droseddol) a gall derfynu'r Drwydded hon yn gynnar a/neu gymryd camau disgyblu.

Cyn cytuno i delerau ac amodau'r Drwydded hon, dylai'r Myfyriwr ddarllen y Drwydded hon a Llawlyfr y Preswylwyr, Rheoliadau'r Brifysgol ac (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig) Telerau'r Cynllun Cerdyn, a chael unrhyw gyngor cyfreithiol y gall fod ei angen arno i sicrhau ei fod yn deall telerau, amodau a rhwymedigaethau'r dogfennau hyn.

1 Diffiniadau

1.1 Hysbysiad Ffioedd Llety: hysbysiad ffioedd llety'r Brifysgol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ac sy'n rhan o Lawlyfr y Preswylwyr. Gallwch lawrlwytho'r Hysbysiad Ffioedd Llety o'r dudalen we a ganlyn - <https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/fees/>.

1.2 Cerdyn: mae iddo'r ystyr a roddir i'r term hwnnw yn Rheoliadau'r Cynllun Cerdyn (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig).

1.3 Cynllun Cerdyn: y cynllun ar gyfer cerdyn debyd talu-ymlaen-llaw i brynu Gwasanaethau Arlwygo (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig).

1.4 Telerau'r Cynllun Cerdyn: telerau ac amodau'r Brifysgol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ar gyfer y Cynllun Cerdyn. Gallwch lawrlwytho Telerau'r Cynllun Cerdyn o'r dudalen we a ganlyn - <https://www.aber.ac.uk/cy/hospitality/aber-gift-card/>.

1.5 Gwasanaethau Arlwygo: cyflenwi bwyd a diodydd di-alcohol ar safleoedd arlwygo sy'n eiddo i'r Brifysgol neu sy'n cael eu rheoli ganddi, a nodir yn Nhelerau'r Cynllun Cerdyn fel y safleoedd lle gellir defnyddio'r Cerdyn i brynu Gwasanaethau Arlwygo (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig).

1.6 Mannau Cyffredin: yr holl risiau, coridorau a chynteddau cyffredin, unrhyw ystafell gyffredin ac unrhyw ystafell olchi dillad yn y Breswylfa, unrhyw gyfleusterau parcio beiciau cyffredin, a'r holl lwybrau troed sy'n arwain at y Breswylfa ac ohoni ac sy'n eiddo i'r Brifysgol.

1.7 Cynnwys: y ffitiadau, y dodrefn, y dodrefn meddal a'r eitemau a geir yn yr Ystafell ac yn yr Ardaloedd a Rennir o bryd i'w gilydd fel a nodir ar y Rhestr Eitemau.

1.8 Blaendal: y £100 a dalwyd yn flaenorol gan y Myfyriwr fel Ffi Dderbyn ac sy'n troi'n awtomatig, ar ddechrau Cyfnod y Drwydded, yn flaendal diogelwch i'w gadw'n unol â chymal 6.

1.9 Cais i Gyrraedd yn Gynnar: cais gan y Myfyriwr i gyrraedd cyn y dyddiad cychwyn neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) y dyddiadau cychwyn y cyfeirir ato/atynt yn y diffiniadau (fel y bo'n berthnasol) o Gyfnod y Drwydded ac Is-gyfnod Trwydded ym Manylion y Drwydded hon ac y mae'r Brifysgol wedi cytuno arnynt o dan Llawlyfr y Preswylwyr.

1.10 Fflat/Tŷ: fflat neu dŷ hunangynhwysol (yn ôl yr achos) mewn neu o fewn y Breswylfa sy'n cynnwys ystafelloedd gwely-astudio preifat ac Ardaloedd a Rennir (dim ond i Ystafelloedd mewn fflatiau neu dai y mae'r diffiniad hwn ac unrhyw gyfeiriad at Fflat/Tŷ yn y Drwydded hon yn gymwys).

1.11 Rhestr Eitemau: y rhestr eitemau o gynnwys yr Ystafell a'r Ardaloedd a Rennir

fel y mae ar ddechrau Cyfnod y Drwydded ac y mae cymal 5 yn berthnasol iddi.

1.12 Allwedd: Allwedd, cardiau mynediad, cardiau allwedd, ffobiau ac unrhyw offer arall ar gyfer diogelu neu gael mynediad cyfreithlon i'r Eiddo

1.13 Defnydd a ganiateir: ystafell wely-astudio breifat at ddefnydd y Myfyriwr yn unig.

1.14 Llawlyfr y Preswylwyr: llawlyfr preswylwyr y Brifysgol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ac sy'n pennu gwahanol reolau, rheoliadau a chanllawiau ar gyfer myfyriwr ym mhreswylfeydd Prifysgol Aberystwyth. Mae Llawlyfr y Preswylwyr i'w weld ar ddechrau'r ddogfen hon.

1.15 Ardaloedd a Rennir: y coridorau, y cynteddau, y gegin, yr ardal fwyta ac unrhyw ardaloedd cyffredin eraill o fewn y Fflat/Tŷ perthnasol (dim ond i drwyddedau Ystafelloedd mewn fflatiau neu dai y mae'r diffiniad hwn ac unrhyw gyfeiriad at Ardaloedd a Rennir yn y Drwydded hon yn gymwys).

1.16 Rheoliadau'r Brifysgol: rheolau a rheoliadau'r Brifysgol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ac sy'n berthnasol i holl fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol, pa un a ydyn nhw'n preswyllo mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol ac sy'n cael ei reoli ganddi ai peidio. Gallwch lawrlwytho Rheoliadau'r Brifysgol o'r dudalen we a ganlyn - www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/regulations/. At ddibenion y Drwydded hon, cyfeirir y Myfyriwr yn arbennig at y nodiadau rhagarweiniol, wybodaeth bwysig i fgfyrwyr (gan gynnwys troseddau euogfarn), Rheolau a Rheoliadau i Fyfyrwyr 1 (Cyflwyniad), 2 (Rheolau), 3 (Rheoliadau), 4 (Cosbau), 5 (Trefniadau Disgyblu), 6 (Gwybodaeth) a'r Atodiad (Collfarnau Troseddol) yn Rheoliadau'r Brifysgol.

2 Trwydded i breswyllo

2.1 Mae hon yn Drwydded rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr y cyfeirir ato ym Manylion y Drwydded hon.

2.2 Yn amodol ar delerau'r Drwydded hon, mae'r Brifysgol yn rhoi trwydded i'r Myfyriwr dros Gyfnod y Drwydded:

2.2.1 preswyllo yn yr Ystafell at y Defnydd a Ganiateir yn unig;

2.2.2 defnyddio'r Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir a'r Mannau Cyffredin at eu priod ddibenion.

2.3 Os bydd Myfyriwr yn cyrraedd yn gynnar yn unol â Chais i Gyrraedd yn Gynnar, bydd Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) Is-gyfnod perthnasol y Drwydded (yn ôl yr achos) yn cychwyn ar y dyddiad pan fydd y Myfyriwr yn cyrraedd, nid y dyddiad y cyfeirir ato yn y diffiniad o Gyfnod y Drwydded neu Is-gyfnod y Drwydded ym Manylion y Drwydded hon.

2.4 Os bydd y Myfyriwr yn aros ar ôl diwedd Cyfnod y Drwydded yn unol â Chais i Aros yn Hwyr, bydd Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) Is-gyfnod perthnasol y Drwydded (yn ôl yr achos) yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd y Myfyriwr yn gadael, nid y dyddiad y cyfeirir ato yn y diffiniad o Gofnod y Drwydded neu Is-gyfnod y Drwydded ym Manylion y Drwydded hon.

2.5 Dim ond tra bydd y Myfyriwr yn fyfyrwr cofrestredig ym Mhrifysgol Aberystwyth y bydd y drwydded i breswyllo, a roddir gan gymal 2.2, yn gymwys.

2.6 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fynd i'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa ar unrhyw adeg resymol ar ôl rhoi rhybudd rhesymol (ac eithrio mewn argyfwng pan na fydd angen unrhyw rybudd) a chyda neu heb staff y Brifysgol, ei hasiantau a'i gweithwyr ac unrhyw ddeunyddiau, offer a chyfarpar mewn perthynas â:

2.6.1 archwilio stad a chyflwr yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa;

2.6.2 cyflawni unrhyw waith atgyweirio, cynnal a chadw a disodli neu unrhyw waith sy'n ofynnol o dan statud i'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa;

2.6.3 canfod a yw'r Myfyriwr wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau yn y Drwydded hon;

2.6.4 ymchwilio i unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau o ran yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa;

2.6.5 cydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn y Drwydded hon; a

2.6.6 buddiant y Brifysgol yn y Breswylfa.

3 Rhwymedigaethau'r partion ac ymgorffori'r telerau

3.1 Bydd y Myfyriwr a'r Brifysgol yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau yn y Drwydded hon.

3.2 Mae'r Drwydded hon yn ymgorffori telerau, amodau, rheolau a rheoliadau Llawlyfr y Preswylwyr, Rheoliadau'r Brifysgol ac (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig) Telerau'r Cynllun Cerdyn.

3.3 Nid yw'r Myfyriwr wedi camliwio neu fethu â datgelu ac ni fydd yn camliwio nac yn methu â datgelu unrhyw amgylchiadau i'r Brifysgol er mwyn cael neu gadw'r Drwydded hon.

4 Ffi Llety a symiau eraill

4.1 Bydd y Myfyriwr yn talu'r Ffi Llety i'r Brifysgol yn llawn neu mewn rhandaliadau ar y dyddiadau a nodir yn unol â'r cynllun talu a sefydlwyd.

4.2 Os bydd y Myfyriwr yn cyrraedd yn gynnar yn unol â Chais i Gyrraedd yn Gynnar, Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) Is-Gyfnod perthnasol y Drwydded (yn unol â'r achos), bydd y Myfyriwr yn talu'r taliadau cyrraedd yn gynnar y cyfeirir atynt yn Llawlyfr y Preswylwyr, ac yn unol â Llawlyfr y Preswylwyr. Mae'r taliadau hynny yn rhan o'r Ffi Llety, ond maent yn daladwy yn ychwanegol at y Ffi Llety a nodir ym Manylion y Drwydded hon.

4.3 Os bydd y Myfyriwr yn aros ar ôl diwedd Cyfnod y Drwydded yn unol â Chais i Aros yn Hwyr, Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) Is-Gyfnod perthnasol y Drwydded (yn unol â'r achos), bydd y Myfyriwr yn talu'r taliadau aros yn hwyr y cyfeirir atynt yn Llawlyfr y Preswylwyr, ac yn unol â Llawlyfr y Preswylwyr. Mae'r taliadau hynny yn rhan o'r Ffi Llety, ond maent yn daladwy yn ychwanegol at y Ffi Llety a nodir ym Manylion y Drwydded hon.

4.4 Bydd y Myfyriwr yn talu'r Ffi Llety ac unrhyw symiau eraill sy'n daladwy o dan y Drwydded hon ar y dyddiadau dyledus ac yn y modd a nodir yn y Drwydded hon ac yn yr Hysbysiad Ffioedd Llety, heb unrhyw ddidyniadau, gwrth-hawliadau neu wrthgyfrifiadau.

4.5 Os bydd y Myfyriwr yn gadael yr Ystafell cyn i Gyfnod y Drwydded ddod i ben neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) cyn i bob Is-gyfnod Trwydded ddod i ben am unrhyw reswm heb ganiatâd y Brifysgol (caniatâd nad oes rhaid i'r Brifysgol ei roi) yna:

4.5.1 ni fydd gan y Myfyriwr hawl i ad-daliad o unrhyw Ffi Llety y mae wedi'i dalu'n flaenorol oni bai fod y Brifysgol yn ailosod yr Ystafell i fyfyrwr arall am y cyfan neu ran o'r Cyfnod Trwydded sy'n weddill; mewn achos o'r fath bydd y Brifysgol yn ad-dalu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i'r Myfyriwr y Ffi Llety a dalwyd yn flaenorol mewn perthynas â'r cyfnod o'r dyddiad ailosod, a chan gynnwys y dyddiad hwnnw; a

4.5.2 bydd y Myfyriwr yn dal i dalu ffioedd llety ar yr un gyfradd ddyddiol â'r Ffi Llety ar gyfer y cyfnod hyd at, ac yn cynnwys, naill ai:

4.5.2.1 y dyddiad pan fyddant yn dychwelyd allwedd yr Ystafell i i'r Brifysgol; neu

4.5.2.2 y dyddiad pan fyddant yn ymadael â'r Ystafell p'un bynnag yw'r hwyraf, a hynny p'un a yw'r Brifysgol wedi rhoi caniatâd i'r Myfyriwr adael yr Ystafell ai peidio.

5 Rhestr Eitemau

5.1 Pan fydd y Myfyriwr yn symud i'r Ystafell a chyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl cychwyn Cyfnod y Drwydded fan bellaf, rhaid i'r Myfyriwr:

5.1.1 sicrhau bod y Rhestr Eitemau yn nodi'n gywir holl Gynnwys yr Ystafell a'r Ardaloedd a Rennir ac unrhyw Gynnwys sydd ar goll neu sydd wedi'i ddifrodi ar y dyddiad y symudodd y Myfyriwr i'r Ystafell; a

5.1.2 llenwi a chyflwyno'r Rhestr Eitemau ar-lein i'r Brifysgol gan restru unrhyw Gynnwys sydd ar goll neu sydd wedi'i ddifrodi.

5.2 Os nad yw'r Myfyriwr wedi cwblhau'r Rhestr Eiddo ar-lein a'i cyflwyno i'r Brifysgol yn restru unrhyw Gynnwys sydd ar goll neu sydd wedi'i ddifrodi cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl cychwyn Cyfnod y Drwydded, mae'r Myfyriwr yn derbyn bod y Rhestr Eitemau a ddarparwyd gan y Brifysgol yn gywir.

6 Ffi Dderbyn a Blaendal

6.1 Bydd y Myfyriwr yn talu'r Ffi Dderbyn i'r Brifysgol ar ddyddiad y Drwydded hon, neu cyn y dyddiad hwnnw, yn unol â chynnig llety'r Brifysgol i'r Myfyriwr.

6.2 Bydd y Ffi Dderbyn yn cael ei had-dalu'n llawn os bydd y Myfyriwr yn canslo'r Drwydded cyn symud i mewn, erbyn y dyddiad a roddir ym Mhecyn y Drwydded Llety. Nid yw'r hawl i ganslo'n gymwys ar ôl i'r Myfyriwr nôl yr allwedd. Ar ôl i'r Myfyriwr fynd â'r allwedd mae'n rhy hwyr i ganslo yn ôl y cymal hwn.

6.3 Os bydd y Myfyriwr yn methu â dod i breswyllo yn yr Ystafell ar ddechrau Cyfnod y Drwydded, bydd y Brifysgol yn cadw'r Ffi Dderbyn yn llawn i dalu'i chostau gwienyddol mewn perthynas â'r diffyg preswyllo ac yn chwilio am rywun arall i breswyllo yn yr Ystafell. Ni fydd hyn yn gymwys os bydd y Myfyriwr yn methu â dod i breswyllo yn yr Ystafell am resymau meddygol, lles neu academiaidd a dderbynnir gan y Brifysgol (mewn achos o'r fath, ad-delir y Ffi Dderbyn i'r Myfyriwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau Cyfnod y Drwydded).

6.4 Ar ddechrau Cyfnod y Drwydded, bydd y Ffi Dderbyn yn troi'n awtomatig yn Flaendal. Bydd y materion isod yn berthnasol iddo:

6.4.1 bydd y Brifysgol yn cadw'r Blaendal yn ystod Cyfnod y Drwydded i ddigolledu'r Brifysgol neu'i digolledu'n rhannol am:

6.4.1.1 unrhyw ddifrod, neu ddigollediad am ddifrod, i'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa neu am unrhyw Gynnwys sydd ar goll ac y mae'r Myfyriwr yn atebol amdano o dan rwymedigaethau'r Drwydded hon;

6.4.1.2 y costau yr aeth y Brifysgol iddynt yn briodol mewn perthynas â thorri unrhyw un o rwymedigaethau'r Myfyriwr o dan y Drwydded hon, neu i wneud iawn neu i gywiro toriad o'r fath; ac

6.4.1.3 unrhyw rent nas talwyd ac unrhyw arian neu symiau eraill nas talwyd sy'n ddyledus neu'n daladwy gan y Myfyriwr i'r Brifysgol o dan y Drwydded hon.

6.4.2 Os:

6.4.2.1 bydd y Myfyriwr yn torri unrhyw un o rwymedigaethau'r Myfyriwr o dan y Drwydded hon; neu

6.4.2.2 bydd yr amgylchiadau yng nghymal 9.4.2 yn gymwys caiff y Brifysgol ddidynnu arian o'r Blaendal i'w digolledu neu'i digolledu'n rhannol am unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt yng nghymal 6.4.1.

6.4.3 Os na fydd y Blaendal yn digolledu'r Brifysgol yn llawn am unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt yng nghymal 6.4.1 neu mewn unrhyw un o'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn Llawlyfr y Preswylwyr, caiff y Brifysgol beri iddi fod yn ofynnol i'r Myfyriwr dalu'r diffyg i'r Brifysgol o fewn cyfnod y bydd y Brifysgol (gan weithredu'n rhesymol) yn rhoi gwybod i'r Myfyriwr amdano yn ysgrifenedig.

6.4.4 Os yw'r Brifysgol wedi gwneud unrhyw ddidyniadau o dan gymal 6.4.2, caiff, ond nid oes rhaid iddi, ofyn i'r Myfyriwr dalu'r diffyg rhwng y Blaendal gwreiddiol a swm y Blaendal (os o gwbl) ar ôl unrhyw ddidyniad o'r fath, gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'r Blaendal ar unrhyw adeg yn llai na swm y Blaendal gwreiddiol. Bydd diffyg o'r fath yn daladwy o fewn cyfnod y bydd y Brifysgol (gan weithredu'n rhesymol) yn rhoi gwybod i'r Myfyriwr amdano yn ysgrifenedig. Bydd unrhyw ddiffyg o'r fath a delir yn rhan o'r Blaendal at ddibenion y Drwydded hon.

6.4.5 Ni fydd cymalau 6.4.2-6.4.4 yn effeithio ar unrhyw rwymedïau eraill sydd ar gael o dan gyfraith sifil a throseddol Cymru a Lloegr, a byddant yn ychwanegol iddynt.

6.4.6 Ni fydd y Myfyriwr yn derbyn unrhyw log ar y Blaendal a bydd unrhyw log a enillir ar y Blaendal yn eiddo i'r Brifysgol.

6.4.7 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd Cyfnod y Drwydded, bydd y Brifysgol yn ad-dalu i'r Myfyriwr unrhyw ran o'r Blaendal sy'n weddill ar ôl iddi ddidynnu unrhyw arian sy'n ofynnol i'w digolledu neu i'w digolledu'n rhannol am unrhyw faterion y cyfeirir atynt yng nghymal 6.4.1.

6.4.8 Cyn i Gyfnod y Drwydded ddod i ben, mae'n rhaid i'r Myfyriwr ddarparu manylion banc DU dilys fel y bydd y Brifysgol yn gallu ad-dalu i'r Myfyriwr unrhyw ran o'r Blaendal sydd yn weddill yn unol â chymal 6.4.7. Mae'n bosib,

drwy drefnu ymlaen llaw, i wneud trosglwyddiadau banc rhyngwladol, ond efallai y bydd rhaid talu ffi am hynny.

6.4.9 Os bydd y Myfyriwr yn cael llety yn y Brifysgol i'r flwyddyn academiaidd nesaf, gellir trosglwyddo'r Blaendal a'i ddefnyddio yn Ffi Dderbyn i'r Cyfnod Trwydded hwnnw. Os yw'r Brifysgol wedi tynnu unrhyw symiau yn unol â chymal 6.4.2, bydd angen i'r Myfyriwr dalu i'r Brifysgol y gwahaniaeth rhwng y Blaendal a'r Ffi Dderbyn angenrheidiol.

7 Cyfleustodau

7.1 Mae'r Ffi Llety'n cynnwys defnydd preswyl o drydan, dŵr, carthffosiaeth, gwres, goleuadau, gwresogi dŵr a (lle bo'r Breswylfa wedi'i chysylltu at gyflenwad nwy) nwy.

7.2 Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod gwasanaethau trydan, dŵr, carthffosiaeth a (lle bo'r Breswylfa wedi'i chysylltu at gyflenwad nwy) nwy yn cael eu cyflenwi'n ddi-dor i'r Breswylfa. Fodd bynnag, ni all y Brifysgol warantu y caiff cyflenwadau trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth eu cyflenwi ac ni fydd yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o fethiant y darparwr gwasanaeth i gyflenwi gwasanaethau o'r fath.

7.3 Bydd y Brifysgol yn talu unrhyw filiau am wasanaethau trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth ar gyfer y Breswylfa yn brydlon.

7.4 Bydd y Myfyriwr yn talu am yr holl daliadau (gan gynnwys unrhyw daliadau cysylltu, rhentu neu daliadau gofynnol eraill) i ddefnyddio unrhyw linell ffôn a osodir yn yr Ystafell neu'r Ardaloedd a Rennir o dan gymal 10.4. O ran unrhyw linell ffôn o'r fath yn yr Ardaloedd a Rennir, bydd y myfyrwr yn y Fflat/Tŷ (gan gynnwys y Myfyriwr, ond nid yn gyfyngedig iddo) yn gyfrifol ar y cyd am daliadau o'r fath.

8 Defnydd

8.1 Dim ond at y Defnydd a Ganiateir y bydd y Myfyriwr yn defnyddio'r Ystafell, ac nid at unrhyw ddefnydd arall.

8.2 Dim ond at y priod ddiben y bydd y Myfyriwr yn defnyddio'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa, ac nid at unrhyw ddiben arall.

8.3 Ni fydd y Myfyriwr yn defnyddio'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa ar gyfer unrhyw weithgaredd masnachol, busnes, masnach neu broffesiwn.

8.4 Ni fydd y Myfyriwr yn defnyddio'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa nac yn caniatáu iddynt gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion anghyfreithlon neu anfoesol.

8.5 Ni fydd y Myfyriwr yn creu unrhyw sŵn, neu'n caniatáu i unrhyw sŵn gael ei greu, ar unrhyw adeg sy'n peri neu sy'n debygol o beri niwsans neu flinder i eraill neu y gellir ei glywed tu allan i'r Ystafell neu'r Ardaloedd a Rennir.

8.6 Bydd y Myfyriwr yn cydymffurfio â Llawlyfr y Preswylwyr, Rheoliadau'r Brifysgol ac (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig) Telerau'r Cynllun Cerdyn a ymgorfforir yn y Drwydded hon.

Rhwymedigaethau statudol ac iechyd a diogelwch

8.7 Bydd y Myfyriwr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol o ran defnyddio'r Ystafell a phreswyllo ynddi ac o ran defnyddio'r Ardaloedd a Rennir a'r Mannau Cyffredin (gan gynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch, dodrefn, dodrefn meddal a ffitiadau, a diogelwch tân, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).

8.8 Ni fydd y Myfyriwr yn dwyn i'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa, nac yn cadw ynddynt:

8.8.1 unrhyw beth sydd neu a allai fod ym marn resymol y Brifysgol yn beryglus, yn wenwynig, yn ymosodol, yn hylosg, yn gyrydol, yn fflamadwy, yn ymbelydrol neu'n ffrwydrol neu unrhyw arfau neu unrhyw beth y mae'n rhesymol ei ystyried fel eitem o'r fath (gan gynnwys arf danio, reiffl awyr, pistol, bwa croes, silindr nwy, cyllell a phen laser, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain); a

8.8.2 canhwylau, ffyn aroglarth, llosgwyr olew, ffresnwyr aer i'w gosod mewn soced a goleuadau tylwyth teg.

8.9 Ni fydd y Myfyriwr yn smygu mewn unrhyw ran o'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa (gan gynnwys mynedfeydd allanol, ffenestri ac unrhyw ardaloedd eraill lle gallai'r mwg ddod i'r Breswylfa, ond heb fod yn gyfyngedig i'r manau hynny).

8.10 Ni fydd y Myfyriwr yn ymyrryd nac yn amharu mewn unrhyw ffordd ag unrhyw offer rhagofalu a diogelu rhag tân (gan gynnwys larymau tân, diffoddwyr tân, blancedi tân, synwryddion mwg a drysau tân, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) ac unrhyw offer neu osodiad arall yn yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa.

8.11 Ni fydd y Myfyriwr yn newid cloeon yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ neu'r Breswylfa ac ni fydd yn gwneud nac yn cael gwneud unrhyw allwedd i a/neu allwedd-gardiau dyblyg a bydd yn dychwelyd yr holl allwedd i ac allwedd-gardiau i'r Brifysgol ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded.

8.12 Ni fydd y Myfyriwr yn gwneud unrhyw beth, nac yn caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud, a allai effeithio'n andwyol ar y Brifysgol neu unrhyw yswiriant adeiladau mewn perthynas â'r Breswylfa, a allai gynyddu premiwm yr yswiriant adeiladau.

8.13 Ni fydd y Myfyriwr yn rhwystro'r Ardaloedd a Rennir, y Mannau Cyffredin a'r llwybrau dianc o'r Ystafell neu'r Fflat/Tŷ neu'n caniatáu iddynt gael eu rhwystro.

8.14 Ni fydd y Myfyriwr yn rhoi unrhyw beth niweidiol mewn unrhyw beipiau neu ddraeniau, neu unrhyw beth sy'n debygol o flocio unrhyw beipiau neu ddraeniau.

Anifeiliaid, anifeiliaid anwes a beiciau

8.15 Ni fydd y Myfyriwr yn cadw anifeiliaid neu anifeiliaid anwes o unrhyw fath (gan gynnwys adar, pysgod, ymlusgiaid neu bryfed, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) yn yr Ystafell, y Fflat/Tŷ, neu'r Breswylfa ac eithrio unrhyw gi cymorth neu gi tywys cofrestredig y mae'r Myfyriwr wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol amdano ymlaen llaw.

8.16 Ni fydd y Myfyriwr yn storio unrhyw feiciau yn yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa (ac eithrio yn y cyfleusterau parcio beiciau cyffredin allanol) yn y Mannau Cyffredin.

Ymddygiad bygythiol

8.17 Ni fydd y Myfyriwr yn ymosod ar unrhyw un o swyddogion, cyflogeion neu fyfyrwyr y Brifysgol neu unrhyw un o isgontractwyr y Brifysgol neu unrhyw unigolyn a awdurdodwyd gan y Brifysgol i fynd i'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa, nac yn bygwth neu'n cam-drin (boed yn gorfforol neu'n eiriol) unrhyw un o'r unigolion hyn.

Hawliau'r Brifysgol

8.18 Ni fydd y Myfyriwr yn gwneud unrhyw beth a allai niweidio'r gwaith o reoli'r ystad yn dda a'r gwaith o redeg y Breswylfa'n esmwyth ac yn effeithlon a/neu'r gwaith o gyflawni busnes y Brifysgol.

8.19 Ni fydd y Myfyriwr yn rhwystro'r Brifysgol rhag cyflawni'i dyletswyddau a bydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol gan y rheolwyr a'r staff bugeiliol sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol.

9 Cyflwr y llety

9.1 Ni fydd y Myfyriwr yn difrodi neu'n marcio'r Ystafell, y Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa.

9.2 Bydd y Myfyriwr yn cadw'r Ystafell a'r Cynnwys mewn cyflwr glân a thaclus ac ni fydd yn peri i'r Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin a'r Breswylfa fod yn frwnt neu'n anniben.

9.3 Ni fydd y Myfyriwr yn symud neu'n trosglwyddo unrhyw Gynnwys o unrhyw ran o'r Ystafell neu'r Fflat/Tŷ. Os bydd y Brifysgol yn gofyn i'r Myfyriwr wneud hynny, bydd yn talu i'r Brifysgol y gost resymol o dychwelyd unrhyw Gynnwys a symudwyd neu a drosglwyddwyd yn ôl i'r Ystafell neu'r Fflat/Tŷ.

9.4 Bydd y Myfyriwr yn gyfrifol am:

9.4.1 cost atgyweirio neu ddisodli unrhyw Gynnwys y mae wedi'i ddifrodi neu'i farcio gan dorri'i rwymedigaethau yn y Drwydded hon; a

9.4.2 cyfran gyfartal wedi'i rhannu rhwng preswylwyr y Fflat/Tŷ neu'r Breswylfa gyfan, neu ran o'r Fflat/Tŷ neu'r Breswylfa (fel y bo'n berthnasol) o'r gost o atgyweirio neu adfer unrhyw ddifrod i'r Fflat/Tŷ neu'r Mannau Cyffredin neu unrhyw gynnwys yn y Fflat/Tŷ a'r Mannau Cyffredin lle nad oes modd pennu'r myfyrwr a achosodd difrod o'r fath, neu lle na chafodd y myfyrwr hynny'u pennu.

Bydd unrhyw Gynnwys neu gynnwys y mae'n rhaid ei ddisodli o dan gymal 9.4 yn cael ei ddisodli ag eitemau tebyg sy'n cael eu cyflenwi gan y Brifysgol sydd o leiaf yn gyfwerth â gwerth y Cynnwys neu'r cynnwys a ddifrodwyd neu a farciwyd.

9.5 Bydd y Myfyriwr yn rhoi gwybod yn fuan i'r Brifysgol am unrhyw ddifrod neu ddiffyg y mae'r Myfyriwr yn gwybod amdano yn:

9.5.1 yr Ystafell, y Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ a'r Mannau Cyffredin ac unrhyw osodiad ynddynt;

9.5.2 strwythur y Breswylfa neu'r tu allan iddi.

9.6 Bydd y Brifysgol/Trwyddedwr y gwneud ymdrechion rhesymol i atgyweirio strwythur y Breswylfa.

10 Addasiadau

10.1 Ni fydd y Myfyriwr yn gwneud unrhyw addasiadau neu ychwanegiadau i'r Ystafell, y Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa (gan gynnwys defnyddio neu yrru neu hoelio unrhyw hoelion, sgriwiau, gwrthrychau o'r fath neu unrhyw eitemau eraill a allai effeithio'n andwyol ar gyflwr addurnol yr Ystafell, y Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).

10.2 Ni fydd y Myfyriwr yn dod ag unrhyw ddodrefn ychwanegol (gan gynnwys dodrefn aer, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) heb gael caniatad ysgrifenedig gan y Brifysgol ymlaen llaw (caniatad nad oes rhaid i'r Brifysgol ei roi) ac eitemau gwaharddig fel y restrir yn y Llawlyfr Llety.

10.3 Ni fydd y Myfyriwr yn gosod dysgl loeren, erial radio neu deledu neu offer o'r fath, nac yn caniatáu iddynt gael eu gosod, yn yr Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa.

10.4 Ni fydd y Myfyriwr yn gosod unrhyw linell ffôn, nac yn caniatáu i unrhyw linell ffôn gael ei gosod, yn yr Ystafell neu'r Fflat/Tŷ heb gael caniatâd y Brifysgol ymlaen llaw (caniatâd nad oes rhaid i'r Brifysgol ei roi).

11 Defnydd ac ymwelwyr

11.1 Mae'r Drwydded hon yn bersonol i'r Myfyriwr.

11.2 Ni fydd y Myfyriwr yn trosglwyddo deiliadaeth yr Ystafell i unrhyw berson neu'n rhannu deiliadaeth gydag unrhyw berson neu'n is-osod yr Ystafell neu'r Ardaloedd a Rennir i unrhyw berson heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Brifysgol ymlaen llaw (caniatâd nad oes rhaid i'r Brifysgol ei roi).

11.3 Ni fydd y Myfyriwr yn croesawu unrhyw ymwelwyr, preswylwyr eraill neu drydydd partion allanol i'r Ystafell a'r Fflat/Tŷ dros nos heb gael caniatâd gan y Brifysgol (caniatâd nad oes rhaid i'r Brifysgol ei roi).

11.4 Bydd y Myfyriwr yn atebol am unrhyw achos o dorri'r Drwydded hon oherwydd ymddygiad unrhyw un sy'n westai i'r Myfyriwr.

12 Hysbysiadu statudol

12.1 Cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r Myfyriwr gael unrhyw orchymyn, hysbysiad neu ohebiaeth a gyfeiriwyd at y Brifysgol neu at breswlydd yr Ystafell neu'r Fflat/Tŷ, yn enwedig unrhyw un a wnaed neu a anfonwyd o dan neu yn rhinwedd unrhyw statud, rheoliad, gorchymyn, cyfarwyddyd neu is-ddeddf gan unrhyw awdurdod cyhoeddus

neu gymwys, bydd y Myfyriwr yn anfon copi o'r gorchymyn, yr hysbysiad neu'r ohebiaeth i'r Brifysgol.

12.2 Heb oedi yn sgil hysbysiad ysgrifenedig gan y Brifysgol i'r Myfyriwr, bydd y Myfyriwr yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio ag unrhyw orchymyn, hysbysiad neu ohebiaeth o'r fath.

13 Yswiriant cynnwys

Bydd y Myfyriwr yn gyfrifol am gael yswiriant ar gyfer ei eiddo personol, nad yw wedi'i gynnwys o dan yr Yswiriant Eitemau Personol Myfyriwr.

14 Cynllun Cerdyn (ar gyfer trwyddedau arlwygo yn unig)

O dan Delerau'r Cynllun Cerdyn, ac yn amodol arnynt:

14.1 Mae'r Ffi Llety'n cynnwys swm sefydlog, y cyfeirir ato ym mharagraff (ch) o ddiffiniad y Ffi Llety ym manylion y Drwydded hon, tuag at brynu Gwasanaethau Arlwygo. Bydd y Brifysgol yn talu'r swm hwnnw i'r Cerdyn, ar gyfradd ddyddiol pro rata ar ddechrau pob tymor.

14.2 Caiff y Myfyriwr ddefnyddio'r swm hwnnw yn ystod Cyfnod y Drwydded i brynu Gwasanaethau Arlwygo.

14.3 Rhaid i'r Myfyriwr ychwanegu swm atodol i'r Cerdyn i gael unrhyw Wasanaethau Arlwygo y mae'n eu defnyddio tu hwnt i'r swm hwnnw - gweler Telerau'r Cynllun Cerdyn.

14.4 Ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded, bydd y Myfyriwr yn fforffedu unrhyw gyfran o'r swm hwnnw nad yw wedi'i defnyddio.

14.5 Os caiff y Drwydded ei therfynu'n gynnar o dan gymal 18 a bod y Myfyriwr wedi gwario:

14.5.1 mwy na'r gyfradd ddyddiol pro rata y cyfeirir ati yng nghymal 14.1 ar gyfer Gwasanaethau Arlwygo, rhaid i'r Myfyriwr dalu am y gorwariant; neu

14.5.2 llai na'r gyfradd ddyddiol pro rata y cyfeirir ati yng nghymal 14.1 ar gyfer Gwasanaethau Arlwygo, codir y gyfradd ddyddiol pro rata ar gyfer y cyfnod preswyllo a chaiff y gweddill ei addasu'n briodol a'i ad-dalu i'r Myfyriwr yn unol â chymal 18.

14.6 Yn amodol ar gymalau 14.4 ac 14.5, caiff y Myfyriwr barhau i ddefnyddio'r Cerdyn yn amhenodol tu hwnt i ddiwrnod olaf Cyfnod y Drwydded yn amodol ar Delerau'r Cynllun Cerdyn.

15 Trosglwyddo i ystafell arall ac ailosod yr ystafell

15.1 Nid yw'r Cytundeb hwn yn ymwneud ag ystafell wely-astudio breifat benodol yn y Breswylfa.

15.2 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i drosglwyddo Myfyriwr i ystafell wely-astudio breifat wahanol yn y Breswylfa neu unrhyw breswylfa arall os yw'r Brifysgol yn penderfynu'n rhesymol bod trosglwyddiad o'r fath:

15.2.1 yn gwella amgylchiadau'r Myfyriwr;

15.2.2 yn deillio o'r ffaith nad oes gan yr Ystafell a/neu'r Fflat/Tŷ a/neu'r Breswylfa y cyfleusterau y mae eu hangen yn rhesymol i ddefnyddio ac i fwynhau'r Ystafell a/neu'r Fflat/Tŷ a/neu'r Breswylfa;

15.2.3 yn diogelu buddiannau unrhyw fyfyrwr neu fyfyrwyr eraill; neu

15.2.4 am resymau disgyblu neu fugeiliol.

15.3 Caiff Myfyriwr wneud cais i'r Brifysgol i drosglwyddo i ystafell wely-astudio breifat arall yn y Breswylfa neu mewn unrhyw breswylfa arall yn ystod Cyfnod y Drwydded, ac mewn perthynas â'r cais:

15.3.1 Bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw gais o'r fath yn ôl teilyngdod ac yng ngoleuni'r ystafelloedd gwely-astudio preifat eraill sydd ar gael ac yng ngoleuni'r goblygiadau ymarferol ac ariannol i'r Brifysgol o roi caniatâd o'r fath.

15.3.2 Os bydd y Brifysgol yn derbyn y fath gais, rhaid i'r Myfyriwr arwyddo a chychwyn ar Gytundeb Trwydded Llety newydd ar gyfer yr ystafell wely newydd. Mae'n bosib y bydd yn Brifysgol yn gofyn am ffi drosglwyddo yn yr achos hwn.

15.3.3 Os bydd y Brifysgol yn cytuno i gais o'r fath ac os bydd Ffi Llety'r ystafell wely-astudio breifat wahanol yn llai na Ffi Llety'r ystafell wely-astudio breifat bresennol, bydd rhaid i'r Myfyriwr barhau i dalu Ffi Llety'r Breswylfa gyfredol. Ni ryddheir y rhwymedigaeth i dalu Ffi Llety'r Breswylfa gyfredol tan fydd y Brifysgol yn dod o hyd i denant arall (sef myfyriwr cyfredol nad yw'n byw mewn neuadd breswyl ar hyn o bryd) i gymryd y lle yn yr ystafell wely-astudio breifat gyfredol fel na fydd y Brifysgol ar ei cholled. Bydd gan y Brifysgol yr hawl i lenwi unrhyw ystafelloedd sydd eisoes yn wag cyn iddi roi tenant newydd yn yr ystafell wely-astudio breifat gyfredol er mwyn rhyddhau'r Myfyriwr.

15.4 Os bydd y Myfyriwr yn gadael yr Ystafell cyn diwedd Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) yr Is-gyfnod Trwydded neu os caiff y Drwydded ei therfynu'n gynnar o dan gymal 18, caiff y Brifysgol ailosod yr Ystafell i fyfyrwr arall o ddewis y Brifysgol neu ganiatáu i fyfyrwr o'r fath breswyllo yn yr Ystafell.

16 Torri rhwymedigaethau'r Myfyriwr

16.1 Mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau'r Myfyriwr yn y Drwydded hon, caiff y Brifysgol (fel y gwêl yn dda gan ddibynnu ar ddirifoldeb yr achos):

16.1.1 ceryddu'r Myfyriwr; a/neu

16.1.2 gosod dirwy neu dâl heb fod dros £100; a/neu

16.1.3 gwahardd y Myfyriwr dros dro o'r Ystafell, y Fflat/Tŷ a'r Breswylfa; a/neu

16.1.4 terfynu'r Drwydded hon o dan gymal 18; a/neu

16.1.5 cymryd camau disgyblu o dan y Llyfryn Llety a/neu Reoliadau'r Brifysgol.

Mae Llawlyfr y Preswylwyr yn rhoi canllawiau am sut y byddwn yn ymdrin â gwahanol achosion o dorri'r Drwydded hon i gychwyn a'r gweithdrefnau apelio ar gyfer gwahanol fathau o doriadau.

16.2 Os bydd y Myfyriwr yn torri'r rhwymedigaethau yn y Drwydded hon, gall y Tîm Rheoli Preswyl, ar ran y Brifysgol, benderfynu pa un o'r rhwymedïau uchod i'w ddefnyddio ac (yn achos dirwy neu dâl) penderfynu pa ddirwy neu dâl i'w osod (heb fod dros £100).

16.3 Os bydd y Brifysgol yn cymryd unrhyw un o'r camau o dan gymal 17.1 yn erbyn y Myfyriwr, caiff y Myfyriwr apelio yn erbyn camau o'r fath yn unol â'r gweithdrefnau apelio a nodir yn Llawlyfr y Preswylwyr ac yn Rheoliadau'r Brifysgol (fel y bo'n berthnasol).

16.4 Yn ychwanegol at unrhyw un o'r rhwymedïau y cyfeirir atynt yng nghymal 17.1, mae'r Brifysgol yn cadw unrhyw rwymedïau eraill sydd ar gael o dan gyfraith sifil a throreddol Cymru a Lloegr, a chaiff geisio unrhyw rwymedïau o'r fath.

17 Terfynu'r Drwydded yn gynnar

17.1 Trwydded am gyfnod penodol yw hon, a deall'r Brifysgol a'r Myfyriwr nad oes modd dirwyn y Cytundeb Trwydded hwn i ben cyn y dyddiad y daw'r drwydded i ben, ac eithrio yn unol â thelerau'r drwydded. Gellid dod â'r Drwydded i ben â chaniatâd y Brifysgol os daw'r Myfyriwr o hyd i fyfyriwr addas arall i lenwi'i ystafell (myfyriwr presennol nad yw ar hyn o bryd yn byw mewn neuadd breswyl).

17.2 Caiff y Myfyriwr derfynu'r Drwydded hon cyn diwedd Cyfnod y Drwydded os:

17.2.1 bydd y Myfyriwr yn gadael y Brifysgol ar unrhyw adeg ar ôl cychwyn Cyfnod y Drwydded a bod y Brifysgol wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw iddo adael, ac mewn perthynas â hynny:

17.2.1.1 bydd y Myfyriwr yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu gweddill y Ffi Llety ac unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus o dan y Drwydded hon mewn perthynas â'r cyfnod hyd at a chan gynnwys dyddiad gadael y Brifysgol; a

17.2.1.2 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad gadael y Myfyriwr, bydd y Brifysgol yn ad-dalu i'r Myfyriwr:

(a) unrhyw Ffi Llety a dalwyd ymlaen llaw sy'n weddill ar sail pro rata mewn perthynas â'r cyfnod ar ôl y dyddiad terfynu;

(b) y Ffi Dderbyn (yn amodol ar gymalau 6.4.2 a 6.4.8); a

(c) unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus i'r Myfyriwr yn briodol; neu

17.2.2 bydd y Brifysgol yn torri'i rhwymedigaethau o dan y Drwydded hon yn ddifrifol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Brifysgol yn ad-dalu i'r Myfyriwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol:

17.2.2.1 unrhyw Ffi Llety a dalwyd ymlaen llaw sy'n weddill ar sail pro rata mewn perthynas â'r cyfnod ar ôl y dyddiad terfynu;

17.2.2.2 y Ffi Dderbyn (yn amodol ar gymalau 6.4.2 a 6.4.8); a

17.2.2.3 unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus i'r Myfyriwr yn briodol.

17.3 Caiff y Brifysgol derfynu'r Drwydded hon cyn diwedd Cyfnod y Drwydded os:

17.3.1 nad yw'r Myfyriwr bellach yn fyfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol (a phan na fydd y Myfyriwr bellach yn fyfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol, rhaid iddo adael yr Ystafell a chydymffurfio â chymal 19.1 ar y dyddiad dadgofrestru); neu

17.3.2 bydd y Myfyriwr yn torri'i rwymedigaethau o dan y Drwydded hon a/neu Lawlyfr y Preswylwyr a/neu Reoliadau'r Brifysgol yn sylweddol neu'n fynych neu'n barhaus; neu

17.3.3 bydd y Myfyriwr yn methu â thalu'r Ffi Llety cyfan neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw symiau eraill sy'n daladwy neu'n ddyledus i'r Brifysgol yn briodol o dan y Drwydded hon. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu'r Cynnig Llety yn ôl os bydd y Myfyriwr yn methu â thalu unrhyw ran o ffioedd llety o gyfnod Trwydded blaenorol; neu

17.3.4 bydd y Brifysgol yn credu'n rhesymol bod ymddygiad neu weithredoedd y Myfyriwr yn effeithio'n andwyol ar y myfyrwyr eraill yn y Fflat/Tŷ neu'r Breswylfa.

17.4 Pan gaiff y Drwydded hon ei therfynu o dan gymal 18, bydd cymal 19 yn gymwys.

18 Diwedd y Drwydded

18.1 Ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded neu (ar gyfer trwyddedau tymor yn unig) yr Is-gyfnod Trwydded (yn y naill achos neu'r llall, pa ffordd bynnag y bydd hynny'n digwydd, gan gynnwys terfynu'r Drwydded yn gynnar o dan gymal 18, ond heb ei gyfyngu i hynny) bydd y Myfyriwr yn:

18.1.1 gadael yr Ystafell;

18.1.2 symud holl eiddo'r Myfyriwr yn brydlon o'r Ystafell, yr Ardaloedd a Rennir, y Fflat/Tŷ, y Mannau Cyffredin neu'r Breswylfa;

18.1.3 sicrhau bod yr Ystafell, y Cynnwys, yr Ardaloedd a Rennir a'r Fflat/Tŷ yn cael eu gadael wedi'u hatgyweirio, eu haddurno, eu glanhau a'u cadw'n unol â'i rwymedigaethau yn y Drwydded hon;

18.1.4 dychwelyd allwedd yr ystafell i'r Brifysgol; a

18.1.5 talu taliadau am lety ar yr un gyfradd ddyddiol â'r Ffi Llety hyd at a chan gynnwys dyddiad dychwelyd allwedd yr ystafell i'r Brifysgol o dan gymal 19.1.6 hyd yn oed os yw'r Myfyriwr wedi cael cadarnhad eu bod wedi gadael y Brifysgol.

18.2 Os na fydd y Myfyriwr yn mynd â'i holl eiddo o'r llety, dan gymal 19.1, bydd y Brifysgol yn symud yr eiddo o'r llety ac yn ei storio am 7 diwrnod ar ôl i'r Cytundeb Trwydded Llety ddod i ben (oni bai bod rhai eitemau'n bethau sy'n pydru. Os felly, gwaredir â nhw'n syth). Os na fydd y Myfyriwr wedi casglu'r eitem(au) 7 diwrnod ar ôl i'r Cytundeb Trwydded Llety ddod i ben, neu erbyn dyddiad arall y cytunwyd arno, bydd y Brifysgol yn gwaredu â'r eitem(au) fel y gwêl yn dda, gan gynnwys trefnu bod yr eitemau yn cael eu storio neu waredu â nhw, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Bydd y Myfyriwr yn talu costau'r Brifysgol am storio neu waredu â'r eitemau hyn drwy orchymyn ysgrifenedig (i'r graddau nad yw'r Brifysgol wedi didynnu'r holl gostau, neu unrhyw ran o'r costau, o'r Blaendal o dan gymal 6.4).

19 Hysbysiadau o dan y Drwydded hon

19.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad o dan y Drwydded hon fod yn ysgrifenedig a chael ei ddsbarthu'n bersonol neu'i anfon drwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw neu drwy ddsbarthiad arbennig neu ddsbarthiad cofnodedig at y derbynnydd yn y cyfeiriad a ganlyn:

19.1.1 hysbysiadau i'r Brifysgol – y cyfeiriad a roddir ym Manylion y Drwydded hon; a

19.1.2 hysbysiadau i'r Myfyriwr – yr Ystafell yn y Fflat/Tŷ perthnasol yn y Breswylfa berthnasol.

19.2 Tybir bod unrhyw hysbysiad wedi'i dderbyn yn briodol:

19.2.1 os cafodd ei ddsbarthu'n bersonol, pan gafodd ei adael yn y cyfeiriad perthnasol o dan gymal 20.1; neu

19.2.2 os cafodd ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw neu drwy ddsbarthiad arbennig neu ddsbarthiad cofnodedig, am 12pm ddau ddiwrnod gwaith ar ôl ei bostio.

19.3 Nid oes modd rhoi hysbysiad o dan y Drwydded hon yn ddilys drwy e-bost. Fodd bynnag, gall y sawl sy'n rhoi'r hysbysiad anfon copi o'r hysbysiad i gyfeiriad e-bost y derbynnydd a nodir ym Manylion y Drwydded hon.

20 Holliad

20.1 Os bydd unrhyw lys neu awdurdod cymwys yn cael bod unrhyw ddarpariaeth yn y Drwydded hon (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, tybir bod y ddarpariaeth neu'r rhan-ddarpariaeth honno, i'r graddau angenrheidiol, wedi'i dileu, ac na fydd yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd darpariaethau eraill y Drwydded hon.

20.2 Pe bai unrhyw ddarpariaeth annilys, anorfodadwy neu anghyfreithlon yn y Drwydded hon yn ddilys, yn orfodadwy ac yn gyfreithlon pe bai rhan ohoni'n cael ei dileu, bydd y ddarpariaeth yn gymwys o wneud yr addasiad lleiaf sy'n ofynnol i'w gwneud yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy.

21 Hawliau trydydd parti

Ni chaiff unigolyn nad yw'n barti i'r cytundeb hwn orfodi unrhyw un o'i delerau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

22 Cyfraith lywodraethol ac awdurdodaeth

22.1 Caiff y Drwydded hon ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohoni neu mewn perthynas â hi neu'i thestun neu'i ffurf (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghontractiol) eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'u dehongli'n unol â hi.

22.2 Mae'r Myfyriwr a'r Brifysgol yn cytuno'n derfynol y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Drwydded hon neu mewn perthynas â hi neu'i thestun neu'i ffurf (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghontractiol).

23 Trwydded

Trwydded ac nid tenantiaeth byrddaliad sicr yw'r Drwydded hon oherwydd adran 1 a pharagraff 8 Atodlen 1 i Ddeddf Dai 1988 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Cod Ymarfer UUK

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i God Ymarfer Universities UK ar gyfer Rheoli Llety Myfyrwyr mewn cysylltiad â'i safleoedd llety.

Cyflwynwyd y Cod yn 2006 ac mae eisoes wedi codi safonau llety. Nod y Cod yw hyrwyddo arfer gorau mewn ystod o weithgareddau rheoli, gan gynnwys cynnal a chadw ac atgyweirio, ansawdd yr amgylchedd, y berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid, lles myfyrwyr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwybodaeth am y cod a manylion y cod llawn ar gael ar y **wefan Byw yn ein Llety**.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib ichi yn unol â Chod Ymarfer Universities UK. Fodd bynnag, gall pethau fynd yn anghywir o bryd i'w gilydd, neu efallai y byddwch yn anfodlon â rhyw ran o'n gwasanaeth. Ein nod yw datrys pob camddealltwriaeth neu gŵyn yn gyflym ac yn y fan a'r lle. Mae gan y Brifysgol Drefn Gwyno a chewch ragor o fanylion ar ein **tudalen Byw yn ein Llety**.



Swyddfa Llety
Y Sgubor, Fferm Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Cymru
SY23 3FH

+44 (0) 1970 622984

llety@aber.ac.uk

[/AberUni.AccommodationOffice](#)

[/PAUAccomOffice](#)

[/pauaccommodationoffice](#)

www.aber.ac.uk/cy/accommodation

